



Arolygiaeth
Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddu ieuenctid yng

Nghastell-nedd Port talbot

Arolygiaeth Prawf EM, Mai 2022

Cynnwys

Foreword	3
Ratings	4
Executive summary	5
Recommendations	10
Background	10
Contextual facts	12
1. Organisational delivery	14
1.1. Governance and leadership	17
1.2. Staff	19
1.3. Partnerships and services.....	22
1.4. Information and facilities.....	26
Diversity	28
2. Court disposals	29
2.1. Assessment.....	30
2.2. Planning.....	32
2.3. Implementation and delivery	33
2.4. Reviewing	35
3. Out-of-court disposals	36
3.1. Assessment	39
3.2. Planning.....	40
3.3. Implementation and delivery	41
3.4. Out-of-court disposal policy and provision	43
Annexe 1: Methodology	45
Annexe 2: Inspection data	46

Cydnabyddiaeth

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Pauline Burke, â chymorth tîm o arolgwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth helpu a chymryd rhan yn yr arolygiad, heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf EM yw arolygydd annibynnol gwasanaethau troseddu ieuentid a phrawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiorwydd gwaith gwasanaethau troseddu ieuentid a phrawf gydag oedolion a phlant.

We inspect these services and publish inspection reports. We highlight good and poor practice and use our data and information to encourage high-quality services. We are independent of government and speak independently.

Sylwch, drwy gydol yr adroddiad, mae'r enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

© Hawlfraint y goron 2022

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) heb dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Cyfiawnder
Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
[@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen arolygiadau gwasanaeth troseddu ieuencid (YOS) Rydym wedi arolygu a graddio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (YJS) Castell-nedd Port talbot ar draws tri maes eang: y trefniadau ar gyfer cyflenwi trefniadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydir gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith gwaredu y tu allan i'r llys. **Yn gyffredinol, graddiwyd YJS Castell-nedd Port talbot yn 'Dda'.**

Mae'r arolygiad yn cydnabod y gwnaed cynnydd arwyddocaol i symud YJS Castell-nedd Port talbot o'r radd isaf yn ei arolygiad diwethaf i ble y mae nawr. Yn effeithiol, mae'r gwasanaeth wedi symud trwy ddau o ffiniau graddio'r arolygiaeth mewn cyfnod byr o amser a rhaid cymeradwyo hynny. Mae'n amlwg bod y cyngor a'i bartneriaid wedi cymryd y canfyddiadau o'r arolygiad diwethaf o ddifri ac wedi blaenoriaethu sefydlu gwasanaeth cyfiawnder ieuencid newydd, gan sicrhau'r adnoddau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth, ac wedi datblygu systemau rheoli perfformiad. Cyflawnwyd hyn ag ymgysylltiad y staff ac mae'n dystiolaeth o drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol sydd ar waith ar gyfer yr YJS.

Canfu'r arolygiad wasanaeth effeithiol, gyda chryfderau'n amlwg ar draws y broses asesu a chyflenwi gwasanaeth ar gyfer gorchmynion llys. Hefyd roedd asesu a chynllunio ar gyfer ymataliad a diogelwch a lles gwarediadau y tu allan i'r llys yn feysydd ymarfer cryf. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau ynghylch adolygu gorchmynion llys a rheoli a lliniaru'r risg o niwed i eraill ar gyfer plant ar warediad y tu allan i'r llys

Mae trefniadau'r YJS ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth wedi'u graddio'n 'Rhagorol' ac mae ei staffio, partneriaethau, a gwybodaeth a chyfleusterau'n 'Dda'.

Mae YJS Castell-nedd Port talbot wedi bod yn weithredol ers 01 Ebrill 2019, wedi i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin ymwahanu. Mae'r YJS wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r bwrdd, a chafodd aelodau'r bwrdddeu cynnwys yn llawn yng ngwaith yr YJS gan ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Hefyd roedd prosesau cadarn ar waith i'r bwrdd glywed safbwyntiau plant. Fodd bynnag, canfu'r arolygiad nad yw'r panel ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys (y Biwro) yn amlasiantaethol ac nad yw'r wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn cael ei chyflwyno iddo'n gyson.

Fe wnaeth y bartneriaeth gwblhau dadansoddiad bwch i adolygu'r adnoddau ar gyfer yr YJS a ffurfiwyd o'r newydd, a arweiniodd at ddealltwriaeth well o faterion lleol cyfiawnder ieuencid gan arwain at ddarpariaeth gynyddol. Fodd bynnag, mae agen gwneud gwaith pellach, gan fodgormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol, ac nid yw'r llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 sy'n addas ac o ansawdd uchel yn amlwg.

Mae'r YJS wedi gweithio'n agos gyda gwasanaethau addysg a phlant i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn parhau i gael eu cefnogi yn ystod y pandemig Covid-19. Cynigiwyd y cyfle i bob aelod o staff drafod arferion gweithio wrth symud ymlaen.

Fe wnaeth yr arolygiad gydnabod bod y gwasanaeth yn dal i ddatblygu ei ddata perfformiad; fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau perfformiad yn caniatáu am ddadansoddiad o'r plant sy'n destun yr ymyriadau gwahanol i helpu i dargedu darpariaeth gwasanaeth. Er bod adroddiadau ar anghymesuredde wedi'u cwblhau, nid yw eu canfyddiadau wedi effeithio ar arfer.

Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn dwy raglen ymyrryd arloesol (yprosiect K9 a'r rhaglen Dysgu Ceffyllaidd Wedi'i Hwyluso), a amlygir yn yr adroddiad hwn. Hefyd mae gan yr YJS weithiwr cymdeithasol ymgynghorol, sy'n darparu lle i staff ddod ynghyd i fyfyrir ar eu harfer. Roedd staff yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu cefnogi ac roeddent yn cael eu hannog i gymryd cyfleoedd hyfforddi.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud nifer o argymhellion yr ydym yn gobeithio y byddant yn cefnogi Castell-nedd Port Talbot i adeiladu ar ei sylfeini cryf a sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i blant.



Justin Russell, Prif Arolygydd Prawf EM

Graddau

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot Sgôr 25/36

Gwaith maes 13 i 17 Rhagfyr 2021

Gradd gyffredinol

Da



1. Cyflenwi sefydliadol

1.1 Llywodraeth ac arweinyddiaeth

Rhagorol



1.2 Staff

Da



1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

Da



1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

Da



2. Gwarediadau llys

2.1 Asesu

Rhagorol



2.2 Cynllunio

Da



2.3 Gweithredu a chyflenwi

Rhagorol



2.4 Adolygu

Angen gwella



3. Gwarediadau y tu allan i'r llys

3.1 Asesu

Da



3.2 Cynllunio

Rhagorol



3.3 Gweithredu a chyflenwi

Angen gwella





Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, sgorir YJS Castell-nedd Port Talbot yn: 'Dda'. Mae'r radd hon wedi'i phenderfynu drwy arolygu'r YJS mewn tri maes gwaith, y cyfeirir atynt fel 'parthau'. Rydym yn arolygu yn ôl 12 'safon' graidd, a rennir rhwng y parthau. Mae'r safonau wedi'u seilio ar fodolau a fframweithiau sefydledig, ar sail tystiolaeth, dysgu a phrofiad. Fe'u cynllunnir i ysgogi gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.¹ Mae rheolau sgorio gyhoeddiedig yn cynhyrchu sgôr cyffredinol yr YJS² Disgrifir y canfyddiadau a sgorau canlynol yn y parthau hynny isod.

Cyflenwi sefydliadol

Mae trefniadau'r YJS ar hyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth wedi'u sgorio fel 'Rhagorol'. Mae'r trefniadau ar gyfer partneriaeth a gwasanaethau, staffio, a gwybodaeth a chyfleusterau wedi'u sgorio fel 'Da'.

Mae'r YJS wedi bod yn weithredol ers 01 Ebrill 2019, wedi datgrynhai Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin. Fe wnaeth Castell-nedd Port Talbot ddechrau cynnal gwasanaeth cyfiawnder ieuencid annibynnol a chafodd bwrdd rheoli newydd ei greu. Mae strwythur llywodraethu corfforaethol yr YJS wedi'i ymgorffori o fewn cyfarwyddiaeth gwasanaethau plant y cyngor.

Mae'r arolygiad yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i symud YJS Castell-nedd Port Talbot o'r sgôr isaf yn ei arolygiad diwethaf i'w sgôr bresennol. Yn effeithiol, mae'r gwasanaeth wedi symud trwy ddau o ffiniau graddio'r arolygiaeth mewn cyfnod byr o amser a rhaid cymeradwyo hynny. Mae'n amlwg bod y cyngor a'i bartneriaid wedi cymryd y canfyddiadau o'r arolygiad diwethaf o ddifri ac wedi blaenoriaethu sefydlu gwasanaeth cyfiawnder ieuencid newydd, gan sicrhau'r adnoddau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth, ac wedi datblygu systemau rheoli perfformiad. Cyflawnwyd hyn trwy ymgysylltu â staff ac mae'n tystio i'r trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol sydd ar waith ar gyfer yr YJS. Mae eglureb ffocws a sylw wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol a wnaed.

Cadeirir y bwrdd rheoli gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai Castell-nedd Port Talbot ac mae wedi bod yn Gadeirydd ers dechrau'r Bwrdd. Mae'r YJS wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r Bwrdd, ac maeaelodau'r Bwrdd wedi'u yhmgolli'n llawn yng ngwaith yr YJS ac yn deall eu rolau a chyfrifoldebau. Mae prosesau ar waith i'r Bwrdd glywed safbwyntiau plant, a gwneir hyn naill ai trwy bresenoldeb plant mewn cyfarfodydd y Bwrdd neu drwy recordiadau fideo.

Mae staff yn fodlon ar eu llwyth gwaith, yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan eu rheolwyr. Mae gan y gwasanaeth weithiwr

¹ Gellir canfod safonau Arolygiaeth Prawf EM yma:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>

² Sgorir pob un o'r 12 safon ar raddfa 0-3 lle mae 'Annigonol' = 0; mae 'Angen Gwella' = 1; mae 'Da' = 2; mae 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgorau hyn yn cynhyrchu cyfanswm sgôr sy'n amrywio o 0 i 36, sy'n cael ei bandio i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol, fel sy'n dilyn: mae 0-6 = 'Annigonol', mae 7-18 = 'Angen Gwella', mae 19-30 = 'Da', mae 31-36 = 'Rhagorol'.

cymdeithasol ymgynghorol, sy'n darparu lle i staff ddod ynghyd i fyfyrion ar eu harferion ynghylch achos penodol neu ynghylch eu gwaith yn fwy cyffredinol. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfleoedd hyfforddi. Sylwyd na fu unrhyw hyfforddiant, briffiadau na sgysiau'n ddiweddaynghylch amrywiaeth, yn arbennig effaith ymwneud â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ar gyfer merched ac ar gyfer plant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.

Gallai'r gwasanaeth gynnig mwy i wirfoddolwyr i'w helpu i integreiddio i'r tîm, a dylid ystyried hyfforddiant pellach fel y gallant gadw'n gyfredol â datblygiadau ac arferion ym maes cyfiawnder ieuencid.

Yn ystod y pandemig Covid-19, cynigiwyd cyfarfodydd diweddarau i'r staff gyda'r prif swyddog ac ystyriwyd eu barn ar arferion gweithio wrth symud ymlaen.

Ers y datgrynhai, mae'r YJS wedi datblygu ei ddata perfformiad ac mae adroddiadau lleol yn cael eu defnyddio i sefydlu tuedd ar gyfer y gwasanaeth. Mae adroddiadau perfformiad yr YJS yn cyfuno gwaith atal, gwarediadau y tu allan i'r llys a gorchmynion llys; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddadansoddiad o broffil plant sy'n destun yr ymyriadau gwahanol hyn. Er bod yr YJS wedi darparu hyfforddiant amrywiaeth sy'n canolbwyntio ar hil a rhywedd ac wedi cwblhau adroddiadau dadansoddi, mae'r rhain wedi cael ychydig o effaith yn unig ar ddealltwriaeth staff o sut y gall amrywiaeth plentyn ddylanwadu ar eu cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.

Wrth sefydlu'r gwasanaeth newydd, fe wnaeth y partneriaeth gwblhau dadansoddiad bwlch i adolygu'r adnoddau. O ganlyniad, fe wnaeth partneriaid ddatblygu dealltwriaeth well o faterion cyfiawnder ieuencid lleol ac anghenion penodol y plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys datblygu clinigau camfanteisio gyda Dyfodol Gwell, sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori i ymarferwyr ar gyfer achosion sy'n cynnwys camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Hefyd gwelodd arolygwyr enghreifftiau o ddau ymyriad ardderchog a chreadigol, sef y prosiect K9 a'r rhaglen Dysgu Wedi'i Hwyluso gan Geffylau.

Fe wnaeth yr arolygwyr ganfod bod gormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol. Ar gyfer plant dros 16 oed, mae'r llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o ansawdd uchel yn aneglur.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael i blant YJS ar BASE15 yn dda ac mae cynlluniau i'w datblygu ymhellach ar y cyd â phlant a theuluoedd. Mae swyddog cyfranogi gyda'r awdurdod lleol, sy'n gweithio ochr yn ochr ag arweinydd yr YJS ar gyfer cyfranogi. Mae plant YJS wedi'u cynnwys yn y mwyafrif o raglenni cyfranogi a chysylltir â'r holl blant ar ddiwedd eu hymyriad i gasglu adborth. Fodd bynnag, nid yw'r YJS yn casglu barnau dioddefwyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Roedd canfyddiadau allweddol ynghylch cyflenwi sefydliadol fel sy'n dilyn

- Mae aelodau'r Bwrdd wedi'u hymgoli'n llawn yng ngwaith yr YJS ac yn deall eu rolau a chyfrifoldebau.
- **Mae aelodau newydd y Bwrdd yn cael cyfnod cynefino i'w rôl ynghyd â phe cyn cynefino.**
- Mae plant yn mynychu neu'n gwneud sylwadau ym mhob cyfarfod rheoli'r Bwrdd.
- Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd tîm yr YJS.
- Mae gan y gwasanaeth weithiwr cymdeithasol ymgynghorol i sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol i ddiwallu anghenion cymhleth plant YJS.
- Mae gan yr YJS bartneriaeth gryf gyda gwasanaethau plant.

- Mae staff yn gwneud popeth a allant i annog ymgysylltiad a chydymffurfiaeth dda gan blant.
- Mae enghreifftiau o ddau ymyriad ardderchog a chreadigol, sef y prosiect K9 a'r rhaglen Dysgu Wedi'i Hwyluso gan Geffylau.
- Fe wnaeth pob partner gwblhau dadansoddiad bwlch i adolygu'r adnoddau ar gyfer yr YJS, a arweiniodd at ddealltwriaeth well o faterion cyfiawnder ieuencid lleol a mwy o adnoddau.
- Mae gan yr YJS bolisi ailsefydlu ar waith, sy'n cynnwys canllawiau ar y broses ailsefydlu ar gyfer staff.
- Mae gan yr YJS ganolfan adnoddau newydd, a enwyd gan y plant.

Ond:

- Nid yw adroddiadau perfformiad yn caniatáu am ddadansoddiad o'r plant sy'n destun y gwahanol ymyriadau i helpu i dargedu darpariaeth gwasanaeth.
- Er bod yr YJS wedi darparu hyfforddiant amrywiaeth sy'n canolbwyntio ar hil a rhywedd ac wedi cwblhau adroddiadau dadansoddi, mae'r rhain wedi cael ychydig o effaith yn unig ar ddealltwriaeth staff o sut y gall amrywiaeth plentyn ddylanwadu ar eu cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.
- Fe fu bwlch yn narpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr YJS ac mae gormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol.
- Mae'r llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 addas o ansawdd uchel yn aneglur.
- Ni roddir cyfleoedd i wirfoddolwyr integreiddio gyda'r tîm
- Nid yw'r YJS yn casglu barnau dioddefwyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Gwarediadau llys

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar dair dedfryd gymunedol a reolwyd gan yr YJS Ni fu unrhyw ddedfrydau o garchar o fewn y cyfnod amser. Hefyd fe wnaethom gynnal tri chyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Fe wnaethom archwilio ansawdd yr asesu; gweithredu a darparu gwasanaethau; ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn ynghylch gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymatal, i gadw'r plentyn yn ddogel, ac i gadw obl eraill yn ddiogel.

Roedd ein canfyddiadau allweddol ynghylch gwarediadau llys fel sy'n dilyn:

- Roedd asesiadau'n gryf ym meysydd ymatal, diogelwch a lles a risg o niwed i bobl eraill. Fe wnaethon nhw ystyried cryfderau a ffactorau diogelu, a'u gallu a'u cymhelliant i newid.
- Wrth wneud asesiadau, roedd rheolwyr achos yn ystyried amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, a gwybodaeth gan asiantaethau eraill.
- Wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn a'r risg o niwed i bobl eraill, aethpwyd i'r afael â risgiau'r plentyn, a chynhwyswyd asiantaethau eraill yn briodol.
- Fe wnaeth staff ganolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas effeithiol gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr ac fe wnaethon nhw annog a galluogi cydymffurfedd y plentyn â'r gorchymyn llys.

- Wrth adolygu, fe wnaeth rheolwyr achos nodi ac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn ac ystyried cymhelliant y plentyn.

Ond:

- Nid oedd staff yn ystyried anghenion amrywiaeth plentyn wrth gwblhau asesiadau.
- Wrth asesu diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill, nid oedd staff yn dadansoddi'r rheolaethau ac ymyriadau'n glir yr oedd eu hangen i reoli a lleihau'r risg a nodwyd.
- Nid oedd staff yn cyflwyno'r trefniadau wrth gefn yn gyson i reoli diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill yn yr achosion a arolygwyd.
- Pan oedd rheolwyr achos yn adolygu diogelwch a lles, nid oeddent yn ymateb yn gyson i newidiadau mewn amgylchiadau nac yn addasu'r cynllun parhaol yn unol â hynny.
- Nid oedd asiantaethau eraill wedi'u cynnwys bob tro wrth adolygu diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill

Gwarediadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom arolygu tri achos a reolwyd gan yr YJS a oedd wedi cael gwarediad y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad ieuencid a dau ddatrysiad cymunedol.

Ni fu unrhyw rybuddiadau amodol yn y cyfnod amser. Fe wnaethom gyfwrdd y tri rheolwr achos mewn tri achos.

Fe wnaethom archwilio ansawdd yr asesu; cynllunio; a gweithredu a darparu gwasanaethau. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn ynghylch y gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymatal, i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodedig i bob agwedd ar oruchwylio gael ei sgorio fel boddhaol.

Hefyd fe wnaethom arolygu ansawdd polisiâu a darpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau.

Roedd ein canfyddiadau allweddol fel sy'n dilyn:

- Cwblhawyd asesiad ar bob plentyn cyn i warediad y tu allan i'r llys gael ei roi.
- Wrth gynnal asesiad, roedd rheolwyr achos yn ystyried cryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn, a lefel eu haeddfedrwydd, a'u gallu a'u cymhelliant i newid.
- Roedd asesu a chynllunio ar gyfer ymatal a diogelwch a lles yn gryfderau arwyddocaol.
- Fel rhan o'r broses gynllunio, roedd rheolwyr achos yn cyflwyno'r cyfleoedd ar gyfer integreiddio i'r gymuned a mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys.
- Lle roedd dioddefwr wedi'i nodi, ystyriwyd eu hanghenion a'u dymuniadau.
- Ystyriwyd barnau rhieni neu ofalwyr fel rhan o'r broses asesu a chynllunio.

Ond:

- Nid yw'r Biwro'n amlasiantaethol ac ni chyflwynir yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson.
- Nid yw adroddiad dadansoddi'r Biwro, sy'n cynnwys proffilio plant, yn monitro ethnigrwydd.
- Nid oes dadansoddi a monitro ar wahân o warediadau y tu allan i'r llys i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant hyn ar oedran gynnar.
- Nid oedd asiantaethau eraill wedi'u cynnwys yn ddigonol wrth gynllunio i reoli a lleihau risg plentyn o achosi niwed i bobl eraill.
- Wrth ddarparu gwasanaethau, nid oedd rheolwyr achos yn nodi'r ffactorau'n gyson a oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymddygiad ymataliol y plentyn nac yn ystyried materion amrywiaeth y plentyn.

Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud pum argymhelliad yr ydym yn credu, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddu ieuencid yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddu ieuencid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

Dylai Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YJS:

1. adolygu fformat a phwrpas y Biwro fel bod ganddo'r wybodaeth a mewnbwn perthnasol o'r asiantaethau angenrheidiol i sicrhau bod y gwarediad y tu allan i'r llys yn diwallu anghenion y plentyn.

Dylai Bwrdd Rheoli'r YJS:

2. dadansoddi nifer yr achosion gwahardd mae plant sy'n hysbys i'r YJS yn eu cael a gweithio ag ysgolion i sicrhau bod y plant yn derbyn eu haddysg statudol mewn lleoliad sy'n diwallu eu hanghenion orau.
3. sicrhau bod addysg, hyfforddiant a darpariaeth cyflogaeth o ansawdd uchel ar gael ar gyfer plant dros 16 oed.

Dylai prif swyddog yr YJS:

4. defnyddio adroddiadau perfformiad a dadansoddiad o ddata i werthuso effeithiolrwydd gwarediadau y tu allan i'r llys i sicrhau bod plant yn cael cynnig ymyriadau priodol ar y cyfle cyntaf.
5. defnyddio'r dadansoddiad ynghylch amrywiaeth ac anghymesuredd i alluogi sgysiau a thrafodaethau i ddiwydd sy'n nodi effaith y system cyfiawnder troseddol ar ferched a phlant du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, a thargedu darpariaeth yn unol â hynny.

Mae timau troseddu ieuenctid (YOTs) yn gweithio gyda phlant 10 i 18 oed sydd wedi'u dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddu, ond nid ydynt wedi'u cyhuddo eto - yn lle, ymdriniwyd â nhw y tu allan i'r llys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r ddwy agwedd hyn ar wasanaethau troseddu ieuenctid.

Mae YOTs yn bartneriaethau statudol, a maent yn amllddisgyblaethol, i ddelio ag anghenion yr holl blentyn. Mae'n ofynnol iddynt gael staff o wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gwasanaethu ieuchyd lleol.³Mae'r mwyafrif o YOTs wedi'u lleoli o fewn awdurdodau lleol, er y gall hyn amrywio.

Mae gwaith YOT yn cael ei reoli a'i lunio gan ystod o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (megis y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid) neu sydd fel arall yn gymwys ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd). Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) yn darparu rhywfaint o gyllid i YOTs. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau iddynt ynghylch sut y dylid gwneud pethau.

Mae Castell-nedd Port Talbot yng Nghymru ac yn cynnwys dwy dref: Port Talbot, sydd ar yr arfordir ac wedi'i diwydiannu, a Chastell-nedd, sy'n fewndirol ac yn gymuned cymoedd Cymru. Mae'r boblogaeth yn cynnwys oddeutu 140,300 o bobl. Mae'r rhai sy'n uniaethu â bod yn wyn yn cyrif am 138,500 o bobl ac mae'r rhai sy'n uniaethu â bod yn ddu, Asiaidd nei leiafrifol ethnig yn cyrif am 1,600, sef 1.1 y cant o'r boblogaeth. Cyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yw 22 y cant, yn ôl arolwg blynyddol o'r boblogaeth 2021.

Mae'r ffigwr cyhoeddedig mwyaf diweddar yn dangos bod nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi lleihau yn ystod 2019. Mae'r gwasanaeth wedi cyfrifo hyn ar gyfer y cyfnod 12 mis yn cwmpasu 2020/2021 ac mae'n dangos bod nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn golygu bod Castell-nedd Port Talbot yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Er bod ganran y garfan YJS sy'n aildroseddu wedi aros yn sefydlog ers 2019, mae'n dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr un gyfnod amser. Yn ystod 2020/2021 cafodd Castell-nedd Port Talbot dair dedfryd o garchar, a oedd, oherwydd y nifer fach o achosion, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r adroddiadau perfformiad a gyflwynwyd i'r bwrdd rheoli wedi arwain at geisiadau penodol am archwiliadau â thema Mae'r rhain wedi cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blentyn, data rhywedd ynghylch bechgyn a merched, trais yn erbyn y person, llety a digartrefedd.

Fe wnaeth Arolygiaeth Prawf EM arolygu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin ym mis Hydref 2018. Roedd Castell-nedd Port Talbot yn rhan o'r gwasanaeth hwn, ochr yn ochr â Phen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Cyhoeddwyd adroddiad yr arolygiad ym mis Mawrth 2019 ac fe wnaeth y gwasanaeth ddatgrynhoi ym mis Ebrill 2019. Fe wnaeth hyn ganiatáu i'r ardal ganolbwyntio ar ei phroffiliau daearyddol a demograffig ei hun a theilwra gwasanaethau i ddiwallu

³Fe wnaeth *Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998* nodi'r trefniadau ar gyfer YOTs lleol a gweithio mewn partneriaeth.

anghenion penodol plant yn ei lleoliad ei hun. Ar 01 Ebrill 2019, fe wnaeth Castell-nedd Port Talbot ddechrau cynnal gwasanaeth annibynnol ar gyfer cyfiawnder ieuencid ac ymyriadau cynnar a chrëwyd bwrdd rheoli newydd.

Ffeithiau cyd-destunol

Gwybodaeth ynghylch y boblogaeth⁴

100	Cyfradd dyfodiaid tro cyntaf fesul 100,000 yng Nghastell-nedd Port Talbot ⁵
167	Cyfradd dyfodiaid tro cyntaf fesul 100,000 yng Nghymru a Lloegr
56.3%	Cyfradd aildroseddu yng Nghastell-nedd Port Talbot ⁶
35.6%	Cyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr
144,386	Cyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot
12,780	Cyfanswm poblogaeth ieuencid (10 - 17 oed) yng Nghastell-nedd Port Talbot

Gwybodaeth ynghylch llwythi achos⁷

Oedran	10–14	15–17
YJS Castell-nedd Port Talbot	17%	83%
Cyfartaledd Cymru	23%	77%
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	22%	78%

Hil/ethnigrwydd ⁸	Gwyn	Du a lleiafrifol ethnig	Anhysbys
YJSCastell-nedd Port Talbot	97%	1%	0%
Poblogaeth ieuencid (10-17 oed) yng Nghastell-nedd Port Talbot	97%	3%	0%
Cyfartaledd Cymru	87%	10%	3%
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	69%	28%	3%

⁴Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). *Amcangyfrifon poblogaeth y DU, canol 2020*.

⁵Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2021). *Newydd-ddyfodiaid, Ionawr i Ragfyr 2020*

⁶Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Ystadegau aildroseddu profedig, Hydref 2018 i Fedi 2019, flwyddyn*.

⁷Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2021). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuencid: 2019 i 2020*.

⁸Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS.

Rhywedd	Gwryw	Benyw
YJS Castell-nedd Port Talbot	76%	24%
Cyfartaledd Cymru	83%	17%
Cyfartaledd Cymru a Lloegr	85%	15%

Data ychwanegol ynghylch llwyth achosion⁹

25	Cyfanswm cyfredol llwyth achosion: dedfrydau cymunedol
2	Cyfanswm cyfredol llwyth achosion yn y carchar
70	Cyfanswm cyfredol llwyth achosion ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys (gan gynnwys rhybuddiadau amodol ieuencid, rhybuddiadau ieuencid a datrysiadau cymunedol)

44%	Canran llwyth achosion cyfredol gyda chynllun plentyn mewn angen neu gynllun diogelu plentyn neu sy'n blant sy'n derbyn gofal.
44%	Canran llwyth achosion cyfredol ag anabledd dysgu neu anhawster dysgu neu sy'n destun Datganiad o Angen Dysgu Ychwanegol neu Gynllun Dysgu Unigol
46%	Canran llwyth achosion cyfredol mewn uned atgyfeirio disgyblion, addysg amgen, ar amserlenni wedi'u gostwng neu heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Ar gyfer plant sy'n destun gwarediadau llys (gan gynnwys achos ailsefydlu):

Mathau o droseddau ¹⁰	Canran
Trais yn erbyn y person	67%
Troseddau cyffuriau	33%

⁹Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS, yn adlewyrchu'r llwyth achosion ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

¹⁰Data o'r achosion a aseswyd yn ystod yr arolygiad hwn.

1. Cyflenwi sefydliadol

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot yn rhan o gyfarwyddiaeth gwasanaethau plant y cyngor. Cynorthwyr inegreiddiad yr YJS gyda phartneriaid gan y ffaith bod gan y prif swyddog gyfrifoldeb am Lwybr 14+ (gadael gofal a gwasanaethau ôl-ofal) a digartrefedd ieuencid.

Mae'r arolygiad yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i symud YJS Castell-nedd Port Talbot o'r sgôr isaf yn ei arolygiad diwethaf i'w sgôr bresennol. Yn effeithiol, mae'r gwasanaeth wedi symud trwy ddau o ffiniau graddio'r arolygiaeth mewn cyfnod byr o amser a rhaid cymeradwyo hynny.

Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi cymryd y canfyddiadau o'r arolygiad diwethaf o ddifrif ac wedi blaenoriaethu sefydlu gwasanaeth cyfiawnder ieuencid newydd, gan sicrhau'r adnoddau perthasol sydd eu hangen ar gyfer plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth, a datblygu systemau rheoli perfformiad. Cyflawnwyd hyn ag ymgysylltiad y staff ac mae'n tystio i'r trefniadau rheoli ac arweinyddiaeth sydd ar waith ar gyfer yr YJS.

Cadeirir y Bwrdd Rheoli gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai Castell-nedd Port Talbot ers ei ddechrau ym mis Ebrill 2019. Mae aelodau newydd o'r Bwrdd yn cael cyfnod cynefino i'w rôl newydd gan brif swyddog yr YJS, ynghyd â phhecyn cynefino sy'n cynnwys amlinelliad o swyddogaeth y Bwrdd ac esboniad o'r setiau data a ddefnyddir. Mae'r YJS wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r Bwrdd, ac fe wnaeth arolygwyr ganfod bod aelodau'r Bwrdd wedi'u hymgoli'n llwyr ac yn rhagweithiol yng ngwaith yr YJS ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd aelodau'r Bwrdd ac arweinwyr YJS wedi eirioli'n gadarnhaol dros yr YJS a maent wedi bod yn allweddol wrth yrru ymlaen y newid rydym wedi'i weld. Mae Canllawiau Arferion Cenedlaethol yr YJB ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn nodi bod llwybr llywodraethu bwrdd rheoli'r gwasanaeth a'i becyn cynefino yn ganllawiau arfer da.

Cynhyrchir adroddiad diogelu ar gyfer y Bwrdd ar sylfaen chwarterol ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar ystod o ddata diogelu. Er bod y gwasanaeth wedi comisiynu hyfforddiant eithafiaeth, roedd yn siomedig nodi nad oedd ei gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag anghymesuredd a hyrwyddo amrywiaeth ar sylfaen ehangach wedi'u cynnwys yn y cynllun strategol.

Fe wnaeth yr arolygwyr ganfod tystiolaeth o'r Bwrdd rheoli'n herio'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ynghylch darparu adnoddau i'r YJS. Roedd y Cadeirydd wedi uwchgyfeirio pryderon y Bwrdd am yr oedi yn yr achos llys ar gyfer plant i aelodau'r farnwriaeth.

Mae prosesau ar waith i'r bwrdd glywed barnau'r plant a gwneir hyn naill ai drwy bresenoldeb plant mewn cyfarfodydd y bwrdd neu drwy recordiadau fideo. Rhennir cyfarthrebu o'r bwrdd mewn cyfarfodydd y rheolwyr a'r tîm ac mae aelodau'r bwrdd yn mynychu cyfarfodydd tîm.

Mae staff yn fodlon ar eu llwyth gwaith, yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan eu rheolwyr. Mae gan y gwasanaeth weithiwr cymdeithasol ymgynghorol, sy'n darparu lle i staff ddod ynghyd i fyfyrion ar eu harferion ynghylch achos penodol neu ynghylch eu gwaith yn fwy cyffredinol. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfleoedd hyfforddi. Mae hyfforddiant pellach yn ofynnol i staff mewn ymddygiad rhywiol niweidiol NOD3 ac i

staff newydd mewn sgrinio ar gyfer pryderon ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu. Er bod yr YJS wedi darparu hyfforddiant amrywiaeth sy'n canolbwyntio ar hil a rhywedd ac wedi cwblhau adroddiadau dadansoddi, mae'r rhain wedi cael ychydig o effaith yn unig ar ddealltwriaeth staff o sut y gall amrywiaeth plentyn ddylanwadu ar eu cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid

Gallai'r gwasanaeth gynnig mwy i wirfoddolwyr i'w helpu i integreiddio i'r tîm, a dylid ystyried hyfforddiant pellach fel y gallant gadw'n gyfredol â datblygiadau ac arferion ym maes cyfiawnder ieuencid. Nodwyd datblygu mentoriaid i weithio gyda phlant fel bwlch mewn darpariaeth.

Yn ystod y pandemig Covid-19, cynigiwyd cyfarfodydd diweddarau i'r staff gyda'r prif swyddog ac ystyriwyd eu barn ar arferion gweithio wrth symud ymlaen.

Pan oedd Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin, nid oedd ganddo ei ddata perfformiad YJB ei hun. Ers y datgrynhai, mae adroddiadau lleol yn cael eu defnyddio i sefydlu tuedd ar gyfer y gwasanaeth.

Mae adroddiadau perfformiad yr YJS yn cyfuno gwaith atal, gwarediadau y tu allan i'r llys a gorchmynion llys, er bod math y drosedd yn cael ei ddadansoddi ar wahân. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddadansoddiad o broffil plant tra'u bod yn destun yr ymyriadau gwahanol hyn.

Mae 'Dyfodol Gwell' yn darparu ymgynghoriadau misol gydag ymarferwyr ar gyfer unrhw achosion sy'n cynnwys camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o ddau ymyriad ardderchog a chreadigol, sef y prosiect K9 a'r rhaglen Dysgu Wedi'i Hwyluso gan Geffylau, a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Wedi datgrynhai YJS Bae'r Gorllewin, fe wnaeth y bwrdd rheoli a'r holl bartneriaid gwblhau dadansoddiad bwlch i nodi'r adnoddau ar gyfer yr YJS newydd.. O ganlyniad, fe wnaeth partneriaid ddatblygu dealltwriaeth well o faterion cyfiawnder ieuencid lleol ac anghenion penodol y plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth.

Canfu'r arolygiad fod gormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol. Ar gyfer plant dros 16 oed, mae'r llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o ansawdd uchel yn aneglur. Fe wnaeth staff YJS roi gwybod bod diffyg llety addas ar gyfer plant YJS a bod hyn yn arbennig o berthnasol pan yw'n angenrheidiol ar sylfaen frys. Gwnaed cynnig am adnoddau ychwanegol drwy'r grŵp Digartrefedd Strategol.

Mae gan yr YJS bolisiâu priodol ar waith ac mae canllawiau ar y rhain ar gael. Mae'r cyfleusterau sydd ar gael i blant YJS ar BASE15 yn dda a byddant yn cael eu datblygu ymhellach ar y cyd â phlant a theuluoedd. Mae staff partneriaeth yn teimlo eu bod yn rhan o'r tîm ac maent wedi adrodd y gellir cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn dda gyda rheolwyr achos. Mae gan yr YJS fframwaith sicrwydd ansawdd ar waith a gwneir archwiliadau thematig ac achosion ar sylfaen amlasiantaethol. Mae tystiolaeth bod yr YJS yn adolygu achosion pan yw digwyddiadau difrifol yn digwydd.

Mae swyddog cyfranogi gyda'r awdurdod lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r arweinydd YJS ar gyfer cyfranogi. Mae plant YJS wedi'u cynnwys yn y mwyafrif o raglenni cyfranogi a chysylltir â'r holl blant ar ddiwedd eu hymyriad i gasglu adborth. Fodd bynnag, nid yw'r YJS yn casglu barnau dioddefwyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Mae gan yr YJS bolisi ailefydlu ar waith, ac mae'r canllawiau'n nodi'r prosesau cynllunio ac adolygu cychwynnol. Er nad oes panel ailefydlu, rhestrir pob achos

aillsefydlu yng nghyfarfod adolygu risg yr YJS. Mae canllawiau ymarfer ar gyfer rheolwyr achos ar ad-alw plant i'r ystâd ddiogel pan ydynt ar drwydded. Fe wnaeth staff adrodd y gall mynediad at lety addas a darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 fod yn her pan yw plant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Mae gan yr YJS Ganllawiau Ymarfer Aillsefydlu Manylach ar waith, a adolygwyd ym mis Hydref 2021

Cryfderau

- Mae aelodau'r Bwrdd wedi'u hymgoli'n llawn yng ngwaith yr YJS ac yn deall eu rolau a chyfrifoldebau.
- Mae aelodau newydd y Bwrdd yn cael cyfnod cynefino i'w rôl ynghyd â phe cyn cynefino.
- Mae plant yn mynychu neu'n gwneud sylwadau ym mhob cyfarfod rheoli'r Bwrdd.
- Mae aelodau'r bwrdd rheoli'n mynychu cyfarfodydd tîm yr YJS.
- Mae gan y gwasanaeth weithiwr cymdeithasol ymgynghorol i sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol i ddiwallu anghenion cymhleth plant YJS.
- Mae gan yr YJS bartneriaeth gryf gyda gwasanaethau plant.
- Mae staff yn gwneud popeth a allant i annog ymgysylltiad a chydymffurfiaeth dda gan blant.
- Mae enghreifftiau o ddau ymyriad ardderchog a chreadigol, sef y prosiect K9 a'r rhaglen Dysgu Wedi'i Hwyluso gan Geffylau.
- Fe wnaeth pob partner gwblhau dadansoddiad bwllch i adolygu'r adnoddau ar gyfer yr YJS, a arweiniodd at ddealltwriaeth well o faterion cyfiawnder ieuencid lleol ac adnoddau cynyddol.
- Mae gan yr YJS bolisi aillsefydlu ar waith, sy'n cynnwys canllawiau ar y broses aillsefydlu ar gyfer staff.
- Mae gan yr YJS ganolfan adnoddau newydd, a enwyd gan y plant.

Meysydd ar gyfer gwella

- Nid yw adroddiadau perfformiad yn caniatáu am ddadansoddiad o'r plant sy'n destun y gwahanol ymyriadau i helpu i dargedu darpariaeth gwasanaeth.
- Er bod yr YJS wedi darparu hyfforddiant amrywiaeth sy'n canolbwyntio ar hil a rhywedd ac wedi cwblhau adroddiadau dadansoddi, mae'r rhain wedi cael ychydig o effaith yn unig ar ddealltwriaeth staff o sut y gall amrywiaeth plentyn ddylanwadu ar eu cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.
- Fe fu bwllch yn narpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr YJS ac mae gormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol.
- Mae'r llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 addas o ansawdd uchel yn aneglur.
- Ni roddir cyfleoedd i wirfoddolwyr i integreiddio gyda'r tîm.

- Nid yw'r YJS yn casglu barnau dioddefwyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain a'u rheoli'n dda'n fwy tebygol o gyflawni eu nodau. Rydym yn arolygu yn ôl pedair safon.

1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth



Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth yr YOT yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth personol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant.

Rhagorol

Data allweddol¹¹

Cyfanswm gwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol	£993,090
Cyfanswm cyllideb arfaethedig gyfredol ar gyfer y flwyddyn ariannol	£1,008,020

Wrth wneud dyfarniad ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn dilynol:

A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth personol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant?

Mae'r arolygiad yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i symud YJS Castell-nedd Port Talbot o'r sgôr isaf yn ei arolygiad diwethaf i'w sgôr bresennol. Yn effeithiol, mae'r gwasanaeth wedi symud trwy ddau o ffiniau graddio'r arolygiaeth mewn cyfnod byr o amser a rhaid cymeradwyo hynny. Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi cymryd y canfyddiadau o'r arolygiad diwethaf o ddifrif ac wedi blaenoriaethu sefydlu gwasanaeth cyfiawnder ieuencid newydd, gan sicrhau'r adnoddau perthasol sydd eu hangen ar gyfer plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth, a datblygu systemau rheoli perfformiad. Cyflawnwyd hyn ag ymgysylltiad y staff ac mae'n tystio i'r trefniadau rheoli ac arweinyddiaeth sydd ar waith ar gyfer yr YJS.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot yn rhan o gyfarwyddiaeth gwasanaethau plant y cyngor. Cadeirir y bwrdd rheoli gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai Castell-nedd Port Talbot ac mae wedi bod yn Gadeirydd ers dechrau'r Bwrdd. Mynychir y bwrdd gan gynrychiolwyr gyda'r safle priodol a chanfu'r arolygiad bod aelodau'r bwrdd wedi'u hymgoli'n llwyr yng ngwaith yr YJS. Mae'n cynnwys yr holl bartneriaid statudol yn ogystal â rhai partheriaid anstatudol, megis aelod y cabinet ar gyfer gwasanaethau plant a chynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Mae cynrychiolydd o'r llys yn aelod o'r bwrdd ondoherwydd ymrwymadau'r llys mae'n anodd iddo fynychu cyfarfodydd y bwrdd. Felly, mae prif swyddog yr YJS a'r rheolwr gweithredol yn cwrdd â chynrychiolwyr y llys yn rheolaidd ac mae cytundeb ar lefel gwasanaeth ar waith.

Mae aelodau newydd o'r Bwrdd yn cael cyfnod cynefino i'w rôl gan y prif swyddog ynghyd â phhecyn cynefino sy'n cynnwys amlinelliad o swyddogaeth y Bwrdd ac esboniad o'r setiau data a ddefnyddir. Mae Canllawiau Arferion Cenedlaethol yr YJB ar

¹¹Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS.

gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn nodi bod llwybr llywodraethu bwrdd rheoli'r gwasanaeth a'i becyn cynefino yn ganllawiau arfer da.

Fe fu ffoecs ar ddatblygu'r bwrdd fel bod yr holl aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae hyn wedi cynnwys nifer o ddiwrnodau datblygu i'r bwrdd, sydd wedi helpu i sefydlu cysylltiadau gweithio gyda thîm y staff ac wedi cefnogi aelodau'r bwrddi gynyddu eu gwybodaeth am waith yr YJS. Wrth i'r bwrdd ddatblygu, erbyn hyn mae'r diwrnodau datblygu'n canolbwyntio ar graffu meysydd penodol o ymarfer.

Mae'r Cynllun Strategol Cyfiawnder Ieuenctid yn rhedeg o 2021 i 2024 ac mae'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol. Roedd y gwasanaeth wedi comisiynu hyfforddiant eithafiaeth; fodd bynnag roedd yn siomedig nodi nad oedd ei gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag anghymesuredd a hyrwyddo amrywiaeth ar sylfaen ehangach wedi'u cynnwys yn y cynllun strategol.

A yw'r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darparu gwasanaeth effeithiol yn weithredol?

Darperir papur briffio'r bwrdd rheoli ym mhob cyfarfod y bwrdd. Mae hwn yn cynnwys diweddariadau ar gynlluniau gwasanaeth a gweithredu a diweddariadau ar feysydd gwasanaeth, er enghraifft staffio, llysoedd, ymatebion Covid 19 a gweithredoedd yn codi o'r bwrdd diwethaf. Cynhyrchir adroddiad diogelu i'r bwrdd ar sylfaen chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth ar ystod o ddata diogelu, gan gynnwys atgyfeiriadau i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, Cynadleddau Amlasiantaethol ar gyfer Asesu Risg, Prevent (Channel), a chwynion a chanmoliaethau.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad mewn cyfarfodydd bwrdd ar adegau gwahanol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys adroddiadau pob chwe mis, proffil blynyddol o'r garfan YJS a

chymariaethau blwyddyn ar flwyddyn. Maenifer y plant sy'n derbyn gofal ar warediad y tu allan i'r llys neu orchymyn llys yn unol â nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, mae nifer o gartrefi preswyl yn lleol ac mae'r gwasanaeth yn rheoli plant yn rheolaidd o awdurdodau lleol eraill sydd wedi'u lleoli yn yr ardal Mae hyn wedi cael effaith ar adnoddau lleol ac mae'n cael ei fonitro'n barhaus. Yn ogystal, yn ddiweddar adolygwyd y protocol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mae'r YJS yn ei hyrwyddo i sicrhau nad yw'r trefniadau gyda chartrefi plant a'r heddlu'n arwain at blant yn cael eu troseddoli'n ddiangen.

Mae tystiolaeth o'r Bwrdd rheoli'n herio'r gwasanaeth prawf a CAMHS ynghylch darparu adnoddau i'r YJS ar ôl datgrynhai, a arweiniodd at gynnig darpariaeth gwell. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi uwchgyfeirio pryderon y Bwrdd am yr oedi yn yr achos llys ar gyfer plant i aelodau'r farnwriaeth, gan amlygu'r effaith y gall oedi ei chael ar iechyd emosiynol a meddyliol a lles y plentyn..

Mae prosesau ar waith i'r bwrdd glywed barnau plant. Gwneir hyn naill ai drwy bresenoldeb plant mewn cyfarfodydd y bwrdd neu drwy recordiadau fideo.

Mae materion sy'n effeithio ar droseddau ieuenctid yn amlwg ar agendâu grwpiau strategol allweddol eraill o fewn Castell-nedd Port Talbot. Mae'r rhain yn cynnwys y Bwrdd Diogelu, y grŵp Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Diogelach, y Bartneriaeth Meddwl am Deuluoedd a'r grŵp Rheoli Troseddwy'r Integredig.

A yw arweinyddiaeth yr YOT yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau effeithiol?

Mae prif swyddog yr YJS wedi dal rolau amrywiol o fewn Castell-nedd Port Talbot ac wedi arwain y broses o ddatgrynhai'r YJS ym mis Ebrill 2019. Mae'r rheolwr gweithredol wedi gweithio i'r YJS ers 2008 fel gweithiwr cymdeithasol ac wedyn fel

ymarferwr uwch cyn dod yn rheolwr gweithredol. Mae'r prif swyddog, y rheolwr gweithredol a'r ymarferwr uwch yn wybodus ynghylch cyfiawnder ieuencid ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi'r tîm.

Mae'r prif swyddog a'r rheolwr gweithredol yn mynychu'r bwrdd rheoli, ac mae aelodau eraill o'r staff yn mynychu i gyflwyno ar ddarnau penodol o waith. Mae perthynas ddwy-ffordd rhwng y bwrdd a staff yr YJS. Rhennir cyfathrebu o'r bwrdd mewn cyfarfodydd rheoli a thîm ac mae aelodau'r bwrdd yn mynychu cyfarfodydd tîm. Hefyd mae'r rheolwr gweithredol yn ysgrifennu cylchlythyr ar gyfer y bwrdd fel bod aelodau'n cael eu diweddarau ar faterion YJS.

Cwblhawyd arolwg staff yr arolygiad gan 14 o bobl, ac roedd 69 y cant ohonynt yn deall gweledigaeth a chenhadaeth yr YJS yn 'dda iawn'; roedd 54 y cant yn 'ymwybodol iawn' o weithgareddau'r bwrdd rheoli ac yn deall ei rôl, ac roedd 46 y cant yn 'eithaf ymwybodol'. Roedd mwyafrif y staff a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo eu bod yn cael eu diweddarau ynghylch materion strategol.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi golygu bod yr YJS yn symud tuag at weithlu cyfunol, rhwng gweithio mewn swyddfa a chartref a, chyn y cyfyngiadau diweddaraf ym mis Rhagfyr 2021, roedd wedi dychwelyd at weithio cyfng yn y swyddfa. Agorwyd y ganolfan adnoddau newydd yn 2021, ar roedd y lle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith gyda phlant ac ar gyfer cyfarfodydd tîm y staff. Cynigiwyd y brechlyn Covid-19 i'r holl staff, ac mae profion llif unffordd yn digwydd yn rheolaidd ar gyfer mwyafrif y staff. Mae asesiadau, ymyriadau ac ymweliadau â phlant wedi'u cwblhau'n greadigol ac mae plant hyglwyf yn parhau i gael eu monitro ar y cyd ag addysg a gwasanaethau plant.

1.2. Staff



Grymusir staff o fewn yr YOT i ddarparu gwasanaeth personol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant.

Da

Data allweddol ynghylch staff¹²

Cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)	24
Cyfradd swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff)	0%
Llwyth achosion cyfartalog ar gyfer rheolwyr achosion (cyfwerth ag FTE) ¹³	12
Diwrnodau gweithio blynyddol cyfartalog â salwch (yr holl staff)	15

Wrth wneud dyfarniad ynghylch staffio, rydym yn ystyried yr atebion i'r pum cwestiwn dilynol:

A yw lefelau staffio a llwyth achosion yn cefnogi darparu gwasanaeth personol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant?

Mae gan yr YJS dîm o 24 o staff. Mae strwythur y tîm yn sefyll o dan y prif swyddog, ac yn cynnwys rheolwr gweithredol, dau ymarferwr uwch, swyddog gwybodaeth a rheolwr busnes. Wedi datgrynhai, adolygwyd strwythur yr YJS, a chyflogwyd rhagor o

¹²Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS ac yn adlewyrchu staffio ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

¹³Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS, wedi'i seilio ar staffio a'r llwyth gwaith ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

weithwyr cymdeithasol, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol, i sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol i ddiwallu anghenion cymhleth y plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth.

Mae rheolwr gweithredol ac ymarferwyr uwch yn gyfrifol am ddyrannu achosion ac mae cyfarfod wythnosol gyda'r tîm i'w dyrannu. Mae dyraniadau ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys yn digwydd y tu allan i'r cyfarfod hwn, gan fod rhaid dyrannu'r achosion hyn o fewn 24 awr. Rhoddir ystyriaeth i nifer yr achosion a ddelir gan reolwyr achosion a'u sgiliau a gwybodaeth benodol. Mae'r broses ddyrannu hefyd yn ystyried pa staff sydd wedi ymwneud yn flaenorol â'r teulu fel bod cysondeb y rheolwr achos yn cael ei flaenoriaethu.

Ar adeg yr arolygiad roedd gan reolwyr achosion oddeutu 12 achos ac, o'r 14 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg o staff, dywedodd 85 y cant eu bod yn canfod eu bod yn gallu rheoli eu llwyth gwaith neu lwyth achosion.

Roedd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod staff yn gwneud popeth a allant i annog ymgysylltiad a chydymffurfiaeth dda gan y plentyn ac mae staff a rheolwyr yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn adnabod eu plant yn dda.

A yw sgiliau staff YOT yn cefnogi darparu gwasanaeth personol ac ymatebol o ansawdd uchel i'r holl blant?

Mae gan weithwyr cymdeithasol yr YJS gyfrifoldeb am achosion a maent yn cynnal asesiadau, yn paratoi adroddiadau ac yn cydgyssylltu ac yn darparu'r ymyriadau gyda phlant sy'n destun gorchmynion llys ac ymyriadau gwirfoddol. Mae gweithwyr atal ac ymyrraeth yr YJS yn cefnogi rheolwyr achosion i ddarparu rhaglenni ac mae ganddynt eu meysydd ymyrraeth arbenigol eu hun, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwrthsefyll heb drais, a'r rhaglen goruchwylio a gwyliadwriaeth ddwys.

Mae gan y gwasanaeth system rota i weithwyr cymdeithasol yr YJS fynychu'r llys, a rennir ag Abertawe. Fe wnaeth adborth a dderbyniwyd o'r llys gadarnhau bod staff yr YJS wedi bod yn addasadwy yn ystod Covid-19 ynghylch ymgysylltu â phlant trwy ddefnyddio gwaith allgymorth, cyfarfodydd rhithiol a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r llys yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfarfodydd, diwrnodau agored a chylchlythyr yr YJS. Mae'r adroddiadau cyn dedfrydu a ddarperir i'r llys yn fanwl ac yn amlinellu'r holl opsiynau ar gyfer dedfrydu.

Mae gan yr YJS gydlynnydd gwirfoddolwyr. Gall gwirfoddolwyr wneud cais am nifer o rolau o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys gweithredu fel aelod gorchymyn atgyfeirio panel neu oedolyn priodol ar gyfer plant yn nalfu'r heddlu, mentora neu wneud iawn. Ar hyn o bryd mae 15 o wirfoddolwyr wedi'u cofrestru, ar nad yw pob un ar gael. Mae recriwtio'n barhaus, gyda phum person yn aros i gael eu hyfforddi ar hyn o bryd. Nodwyd datblygu mentoriaid i weithio gyda phlant fel bwlch mewn darpariaeth. Mae'r holl wirfoddolwyr yn cael cyfnod cynefino, sy'n cynnwys rhaglenni hyfforddiant penodol, cwrdd â staff a chysgodi paneli. Mae hyfforddiant parhaus wedi'i gyfyngu oherwydd Covid-19, er bod gwirfoddolwyr wedi cael sesiwn briffio o'r therapydd lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ni wahoddir gwirfoddolwyr i ddiwrnod datblygu tîm na chyfarfodydd tîm ac nid oes unrhyw gyfarfodydd penodol ar gyfer gwirfoddolwyr. Maent yn derbyn goruchwyliaeth unwaith y flwyddyn, ac er eu bod yn arodd bod y cydlynnydd wirfoddolwyr ar gael iddynt bob amser, gellid gwneud mwy i gefnogi eu hintegreiddio i'r tîm. Dylid ystyried hyfforddiant pellach fel eu bod yn cadw'n gyfredol â datblygiadau ac arferion ym maes cyfiawnder ieuencid.

Yn ystod Covid-19 fe wnaeth yr YJS newid y ffordd roedd paneli atgyfeirio'n cael eu rhedeg gan ddefnyddio WhatsApp fel y gallent weithredu'n rhithiol. Fodd bynnag,

roeddent yn cydnabod bod materion yn bodoli ynghylch mynediad at, a gwybodaeth am, y dechnoleg sydd ei hangen. Cyn gynted ag y codwyd cyfyngiadau, fe wnaethon nhw ddychwelyd at baneli wyneb yn wyneb. Nod yr YJS yw cael yr un aelodau panel ar y panel cychwynnol ar gyfer y gorchymyn atgyfeirio a'r paneli adolygu er mwyn iddynt ddatblygu perthynas â'r plentyn a'u teulu. Mae staff yr YJS yn treulio amser gyda gwirffolwyr cyn ac ar ôl y panel i drafod unrhyw faterion sydd wedi codi.

A yw goruchwyliaeth o'r gwaith yn cefnogi cyflenwi a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel.

Mae staff yn cael goruchwyliaeth fisol reolaidd, sy'n cwmpasu llwyth achosion (os yw'n briodol), llwyth gwaith, unrhyw heriau i iechyd emosiynol a meddyliol person, ansawdd y gwaith a meysydd ar gyfer gwella a datblygiad proffesiynol. Cwblheir arfarniadau blynyddolhefyd, ac adolygir amcanion mewn cyfarfodydd goruchwyliaeth. Mae staff sydd wedi'u secondio'n cael goruchwyliaeth gan eu hasiantaeth gartref, sy'n cwblhau arfarniad, a chan eu rheolwr llinell yn yr YJS.

Mae gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol yr YJS yn darparu lle i staff ddod ynghyd i fyfyrion ar eu harferion neu ar eu gwaith yn fwy cyffredinol. Mae proses gynefino gynhwysfawr ar waith ar gyfer staff newydd, a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â chymhwysedd staff. Ar gyfer yr achosion a aroglwyd, roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn diwallu anghenion yr achos ym mhob achos ôl-llys ac mewn dau o dri gwarediad y tu allan i'r llys. Fe wnaeth staff adrodd eu bod yn teimo bod eu rheolwyr a'u cyfoedion yn eu cefnogi.

A yw trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu'n gynhwysfawr ac yn ymatebol?

Mae cynllun hyfforddi YJS ar waith ar gyfer 2021/2022. Fe wnaeth y gwasanaeth gwblhau archwiliad Cyfiawnder Ieuencid yr YJS ar gyfer ymarferwyr ac mae'n cadw cofnodion cynhwysfawr ar gyfer hyfforddiant. Fe wnaeth staff adrodd eu bod yn teimlo y cânt eu hannog i gymryd cyfleodd hyfforddi.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot e-ddysgu gorfodol ar waith ar gyfer hyfforddiant ym maes diogelu oedolion a phlant. Mae ystod o gyfleodd dysgu ar gael i staff a maent i gyd wedi'u hyfforddi yn y dull ymarfer gwybodus am drawma o weithio gyda phlant. Fe wnaeth y gwasanaeth gomisiynu hyfforddiant camfanteisio gan Barnado's ac mae'r ymarferwyr uwch wedi cwblhau hyfforddiant SAVRY (Asesiad Strwythuredig o'r Risg o Drais mewn Ieuencid)

Canfu'r arolygiad fod angen hyfforddiant pellach ar gyfer staff mewn Asesu, Ymyrraeth a Symud Ymlaen (NOD3) ymddygiad rhywiol niweidiol ac ar gyfer staff newydd mewn sgrinio ar gyfer pryderon ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r YJS yn annog datblygiad staff yn weithredol drwy gynnig cyfleodd rheoli o fewn y gwasanaeth a chefnogi staff i gwblhau cymwysterau allanol, gan gynnwysgraddau gwaith cymdeithasol.

A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?

Fe wnaeth staff adrodd eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a'r YJS drwy gydol y pandemig Covid-19. Cynigiwyd cyfarfodydd dal i fyny un wrth un i bob aelod o staff gyda'r prif swyddog lle gofynnwyd iddynt beth ellid ei wneud i wella'r gwasanaeth, beth sy'n cael ei wneud yn dda, a beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

Dosbarthir arolygon staff yn rheolaidd ar draws y gyfarwyddiaeth ac anogir staff i'w cwblhau. Ymgynghorir â staff mewn cyfarfodydd tîm ynghylch unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd sy'n mynd i gael ei gyflwyno. Mae staff yn derbyn e-byst canmol a

gwerthfawrogi gan arweinwyr uwch a thrwy oruchwyliaeth gan eu rheolwyr llinell. Mae cyfarfodydd tîm yn annog rhannu newyddion cadarnhaol a chydabod arferion da.

Mae gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot wobwr am wasanaeth hir ac mae Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg yn rhoi gwobrau i staff. Hefyd mae Gwobrau Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae nifer o staff YJS wedi'u henwebu am ac wedi ennill gwobrau yn y categorïau gwahanol.

1.3. Partneriaethau a gwasanaethau



Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar waith, gan alluogi darpariaeth bersonol ac ymatebol ar gyfer yr holl blant.

Da

Nodweddion llwyth achosion¹⁴

Canran y llwyth achosion cyfredol â materion lles emosiynol neu iechyd meddwl	71%
Canran y llwyth achosion cyfredol â materion camddefnyddio sylweddau	65%

Wrth wneud dyfarniad ynghylch partneriaethau a gwasanaethau, rydym yn ystyried yr atebion i'r cwestiynau dilynol:

A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a chyfredol o broffiliau plant, a ddefnyddir gan yr YOT i ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu'n dda?

Pan oedd Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin, nid oedd ganddo ei ddata perfformiad YJB ei hun ar gyfer newydd-ddyfodiaid, cyfraddau aildroeddu a'r ddalfa. Ers y datgrynhai, mae adroddiadau lleol yn cael eu defnyddio i sefydlu tuedd ar gyfer y gwasanaeth.

Mae adroddiadau perfformiad yr YJS yn cyfuno gwaith atal, gwarediadau y tu allan i'r llys a gorchmynion llys. Nid oes unrhyw ddadansoddiad o broffil plant sy'n destun yr ymyriadau gwahanol hyn. Byddai segmentu pellach yn caniatáu am ddadansoddiad manylach o ansawdd rhaglenni, ymgysylltu gan blant, a'r cyfraddau aildroeddu sy'n gysylltiedig â'r meysydd gwaith hyn a byddai'n helpu i dargedu darpariaeth gwasanaethau.

A yw'r bartneriaeth YJS yn darparu maint, ystod ac ansawdd y gwasanaethau a'r ymyriadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr holl blant?

Mae gan yr YJS bartneriaeth gryf gyda gwasanaethau plant ac atgyfnerthir hon gan y ffaith bod gan y prif swyddog gyfrifoldeb am Lwybr14+ (gadael gwasanaethau gofal ac ôl-ofal), digartrefedd a bod yn adolygwr ymarfer plant.

Cynullir cyfarfod adolygu amlasiantaethol YJS os asesir plentyn fel un â risg uchel ar gyfer diogelwch a lles a/neu risg o beri niwed i bobl eraill. Cadeirir y cyfarfod gan

¹⁴Data wedi'u cyflenwi gan yr YJS,

ymarferwr uwch a bydd yr holl staff sy'n ymwneud â'r achos yn mynychu, gan gynnwys unrhyw asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'r plentyn.

Hefyd mae panel risg gyd-destunol strategol a chyfarfod amlasiantaethol ar gyfer mapio a phroffilio risg i'r gymuned. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar fapio plant mewn cymunedau ac edrych ar ardaloedd posibl lle gallai camfanteisio ddigwydd, math y camfanteisio a sut y gellir tarfu arno. Yn ogystal, mae'r YJS wedi sefydlu clinigau camfanteisio misol gyda Dyfodol Gwell (prosiect a redir gan Barnardo's), sy'n darparu slotiau ymgynghori unigol ar gyfer ymarferwyr ag unrhyw rai o'u hachosion sy'n cynnwys camfanteisio ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin plant yn rhywiol. Hefyd gall y gwasanaeth gyrchu Ymddiriedolaeth St Giles ar gyfer llinellau sirol a threfnu i'w staff ei hun gael eu hyfforddi i gyflwyno'r rhaglen Gwrthsafiad Di-drais.

Mae'r YJS yn greadigol yn y ffordd mae'n gweithio gyda phlant i fynd i'r afael â'u hanghenion. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o ddau ymyriad ardderchog a chreadigol. Un oedd y prosiect K9, sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio, droseddu cyllyll a llinellau cyffuriau. Mae hwn yn cael ei redeg gan Heddlu De Cymru a'r YJS ac mae'n digwydd dros dri diwrnod. Mae'n cynnwys gweithwyr cydgysylltu ag ysgolion yr heddlu sy'n cyflwyno sesiwn ar droseddu cyllyll, sesiynau ar ymwybyddiaeth o gyffuriau a chymorth cyntaf sylfaenol, a mewn bwn o ddiodeffwr ymosodiad troseddu cyllyll. Mae'n gorffen ag ymweliad â'r uned cŵn a cheffylau ym Mhencadlys yr Heddlu a chyflwyniad, a all arwain at gymhwyster cam un mewn sgiliau cyfathrebu. Mae'r prosiect yn destun gwerthusiad parhaus; fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn dangos gostyngiad mewn aildroseddu gan y rhai sydd wedi cwblhau'r cwrs. Mae adborth wedi dangos bod plant yn meithrin ymddiriedaeth gyda gweithwyr proffesiynol, ac yn arbennig yr heddlu, a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd i ffwrdd o bwysau gan gyfoedion.

Yr ail ymyriad ysbrydoledig ac unigryw, sydd wedi'i ddyfeisio a'i ddatblygu gan aelod o staff yr YJS yn seiliedig ar eu cariad am geffylau, yw'r rhaglen Dysgu Wedi'i Hwyluso gan Geffylau. Mae hon yn fath o ddysgu drwy brofiadau sy'n cynnwys ceffylau a hwyluswr sy'n cydweithio gyda phlentyn i greu newid cadarnhaol. Mae'n cynnwys gweithgareddau gyda cheffylau megis arsylwi, trin, ysgrafellu a gwaith paratoi, ac ymarferion strwythuredig sy'n canolbwyntio ar anghenion ac amcanion y plentyn. Mae'r gwerthusiad yn barhaus ac mae'n cynnwys cipio'r canlyniadau ar gyfer plant drwy ddefnyddio offeryn sy'n adolygu eu hyder a'u modd ymlacio a'r ffordd maent yn cysylltu ag eraill, yn ogystal â meysydd eraill eu lles emosiynol. Ar hyn o bryd mae'r YJS yn gweithio gyda chlybiau ebolion lleol, ffariars ac elusen 'rasio ar gyfer ysgolion' i gynnig cyfleoedd i blant ddysgu rhagor am gyflogaeth a hyfforddiant yn y diwydiant ceffylau, a fydd yn rhan o'u cynllun gadael.

Mae'r YJS hefyd yn ymwneud â'r cydweithrediad 'Nadredd ac Ysgolion' â Phrifysgol Caerdydd, lle maent yn datblygu offeryn/gêm digidol ar gyfer lles emosiynol sy'n cefnogi plant wrth iddynt archwilio effaith dewisiadau ac opsiynau ynghylch ffordd o fyw.

Mae gan y gwasanaeth swyddog cydlynu diodeffwyr cyfiawnder ieuencid (VLO) sy'n hwyluso cyfarfodydd a chynadleddau adferol ac yn sicrhau yr ystyrir yr effaith ar diodeffwyr yn yr ymyriadau gyda'r plentyn. Ar y dechrau, bydd y VLO yn tecstio'r diodeffwr o fewn 24 awr er mwyn trefnu dyddiad ac amser priodol i ffonio er mwyn esbonio'r broses a gwirio a ydynt yn dymuno cymryd rhan. Os nad yw'r diodeffwr yn dymuno dal i gymryd rhan, yna archwilir eu hanghenion unigol ac, os oes angen, cânt eu cyfeirio at asiantaethau eraill i gael cymorth. Eglurir y prosesau adferol iddynt, ac mae'r rhain yn cynnwys llythyr o eglurhad, cyfryngu, cyfarfod wyneb yn wyneb neu wneud iawn. Hefyd bydd y VLO yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o ddiodeffwr i'r plant sydd wedi troseddu. Gwahoddir y VLO i gyfarfod cynllunio dedfryd y plentyn a

bydd yn rhannu unrhyw wybodaeth gan y dioddefwr, yn ogystal â dysgu am y cynlluniau sydd ar waith ar gyfer y plentyn. Yn anffodus, ni chesglir adborth gan dioddefwyr ac felly ni ellir mesur yr effaith mae cymryd rhan yn y gwasanaeth yn ei chael arnynt. Yn ystod y misoedd diweddar mae'r VLO wedi bod yn gweithio ar brosiect i hyfforddi staff ysgolion mewn arferion adferol fel y gallant gefnogi a rheoli ymddygiad plant yn fwy priodol yn yr ysgol.

Roedd dewis ehangach o brosiectau gwneud iawn cyn Covid-19, ond mae'r YJS yn gobeithio y caiff yr holl raglenni eu hailgyflwyno yn y pen draw. Mae prosiectau gwneud iawn yn cynnwys cwrs cymorth cyntaf wedi'i achredu, cerdded cŵn mewn canolfan achub, banciau bwyd a siopau elusennau, gwaith garddio a lleiniau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r holl blant yn derbyn cyfnod cynefino fel y gellir paru prosiectau gyda'u diddordebau.

A yw trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, cynnal a defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

Fe wnaeth y dadansoddiad a wnaed wedi datgrynhai YJS Bae'r Gorllewin arwain at bartneriaid yn datblygu dealltwriaeth well o faterion cyfiawnder ieuencid lleol ac anghenion penodol plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth.

Mae CAMHS yn darparu gweithiwr a rennir ar draws gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot. Maent yn cynnig cyngor, ymgynghori a hyfforddiant ar gyfer staff, yn ogystal ag yn cwblhau asesiadau ac ymyriadau ar gyfer plant. Mae trefniadau ar waith i staff yr YJS gysylltu â nyrsys allgymorth pan yw rhywun ganddynt sydd angen gwasanaethau iechyd rhywiol.

Mae'r holl blant yn cael eu sgrinio am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gan staf yr YJS fel rhan o'u hasesiad. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i nodi'r anghenion hyn fel y gellir atgyfeirio plant i'r therapydd lleferydd ac iaith, a fydd yn cwblhau asesiad pellach, darparu'r ymyriadau perthnasol a chyfeirio at asiantaethau eraill os oes angen. Mae'r therapydd hefyd yndarparu cyngor a chymorth i rieni a gofawyr, yn cyflwyno hyfforddiant i staff mewn asiantaethau partner ac yn addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i blant.

Mae gwasanaeth wedi'i gomisiynu i gefnogi plant ynghylch camddefnyddio sylweddau, sy'n cynnwys dau weithiwr sy'n derbyn atgyfeiriadau gan reolwyr achosion a sy'n darparu ymyriadau.

Oherwydd salwch parhaus ymhlith staff, fe fu bwllch yn narpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr YJS Fe fu un pwynt cyswllt o fewn addysg i symud unrhyw faterion neu waith parhaus ymlaen ag ysgolion. Hefyd mae gan y gwasanaeth gysylltiadau â Chartref Plant Diogel Hillside ac mae'n datblygu canolfan addysg fel y gellir cynnig rhaglenni addysg ag achrediad fel dewis arall yn lle gwahardd ar gyfer cyfnodau penodol o amser. Fe wnaeth yr arolygwyr ganfod bod gormod o blant sy'n hysbys i'r YJS wedi profi neu yn profi cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae angen i'r bartneriaeth wneud dadansoddiad o hyn er mwyn deall a yw'n anghymesur o'i gymharu â phlant nad ydynt yn hysbys i'r YJS. Hefyd dylid cychwyn gwaith ag ysgolion i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r gwaharddiadau a pha ymyriadau ataliol sydd eu hangen i alluogi plant YJS i aros mewn darpariaeth brif ffrwd.

Ar gyfer plant dros 16 oed, mae cynghorydd gyrfaoedd o Yrfa Cymru, sy'n mynychu'r ganolfan BASE1 ar un prynhawn yr wythnos. Hefyd, mae'r coleg lleol yn darparu clinigau addysg misol lle gellir trafod achosion unigol. Fodd bynnag, canfu'r arolygiad

bod y llwybrau i gyrchu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 sy'n addas ac o ansawdd uchel yn aneglur.

Mae'r berthynas â gofal cymdeithasol plant yn dda. Gwahoddir staff YJS i fynychu pob cyfarfod ynghylch plant mewn angen, plant sydd ar gynllun diogelu plentyn a phlant sy'n derbyn gofal.

Fe wnaeth staff roi gwybod bod diffyg llety addas ar gyfer plant YJS a bod hyn yn arbennig o berthnasol pan yw'n angenrheidiol ar sylfaen frys. Mae prif swyddog yr YJS yn Gadeirydd y grŵp Digartrefedd Strategol ac mae adolygiad o'r holl ddarpariaeth tai yn digwydd. **Gwnaed cynnig am lety ychwanegol â chymorth, y gobeithir y bydd yn gwella'r sefyllfa.**

Mae swyddog heddlu'r YJS yn cwblhau gwiriad dyddiol o gronfa ddata'r heddlu i weld a yw unrhyw blant wedi bod yn nalfa'r heddlu, naill ai drwy arestio neu fynychu'n wirfoddol.

Yn ogystal, maent yn cyrchu'r'olrheinydd digwyddiadau', sy'nmonitro plant am ddibenion deallusrwyddtrwy nodi gwybodaeth o system yr heddlu a'i pharu â phlant YJS.

Mae gan yr YJS swyddog prawf wedi'i secondio ar hanner amser sy'n gweithio gyda phlant sy'n 16 oed a throsodd a sy'n arwain ar bontio i'r gwasanaeth prawf. Dim ond ychydig o blant sydd wedi pontio i brawf oherwydd, yn seiliedig ar eu hanghenion unigol, mae'r mwyafrif yn aros gyda'r YJS.

Mae'r YJS yn mynychu Panel Cyfiawnder Ieuenctid Gorllewin Morgannwg i roi diweddariadau ar ddarparu gwasanaeth yn ogystal â darparu cyflwyniadau a chyfleodd hyfforddi i ynadon y llys ieuenctid. Maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd cadw-mewn-cysylltiad y llys, sy'n cynnig cyfle i gadw'n gyfredol gyda'r ynadon, Cadeirydd y mainc a stall allweddol a staff y llys.

Cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr

Mae gan swyddog cyfranogi'r awdurdod lleol fynediad rheolaidd at y ganolfan adnoddau ac mae'n gweithio ochr yn ochr ag arweinydd yr YJS ar gyfer cyfranogi. Mae plant yn mynychu neu'n gwneud sylwadau ym mhob cyfarfod rheoli'r Bwrdd, ac roeddent wedi'u cynnwys mewn ymarfer ymgynghori gyda'r swyddog ymgysylltu a chyfranogi i ailenwi'r ganolfan adnoddau.. Mae plant YJS wedi'u cynnwys ym mwyafrif y rhaglenni cyfranogi a rhoddwyd cyflwyniad cyfranogi i'r bwrdd rheoli.

Fel rhan o'r broses arolygu, gwahoddir plant i gymryd rhan mewn arolwg testun, a chynigir y cyfle i siarad ag arolygwr i'r rhai yr arolygir eu hachosion roi eu hadborth.

Dychwelodd pedwar plentyn yr arolwg testun, gyda thri'n sgorio'r YJS ar wyth neu fwy o 10 (gyda 10 yn golygu 'ffantastig').

Siaradodd arolygwyr â saith plentyn ac un rhiant. Roeddent i gyd yn teimlo bod gan eu gweithwyr y sgiliu cywir i wneud y gwaith a'u bod wedi gallu cyrchu'r gwasanaethau a chymorth cywir i'w helpu i gadw i ffwrdd o drafferth.

Pan ofynnwyd iddo beth oedd yr un peth yr oedd yn ei hoffi orau am yr YJS, dywedodd un plentyn:

"Eu caredigrwydd a maent yn ceisio'ch cynnwys mewn pethau."

Dywedodd plentyn arall:

"Mae wedi bod o gymorth i gael rhywun i siarad ag ef a maent wedi fy helpu i gadw i ffwrdd o drafferth.

Rwyf wedi gwranddo ar y cyngor y maent wedi'i roi i mi."

Polisi a darpariaeth ailsefydlu

Mae gan yr YJS bolisi ailsefydlu ar waith, acmae canllawiau'r broses ailsefydlu'n nodi'r prosesau cynllunio ac adolygu cychwynnol. Er nad oes panel ailsefydlu, mae angen i bob achos ailsefydlu gael eirestru yng nghyfarfod adolygu risg yr YJS o fewn pedair wythnos o ddedfrydu a rhaid ei adolygu'n rheolaidd. Cytunir amodau'r drwydded yn y cyfarfodydd hyn, cyn y cyfarfod olaf ond un cyn rhyddhau. Os yw'r plentyn yn dychwelyd i oruchwyliaeth yr YJS, yna ymgynghorir â dioddefwyr, a chymerir eu dymuniadau i ystyriaeth.

Mae canllawiau ymarfer ar gyfer rheolwyr achosion ynghylch adalw plant i'r ystâd ddiogel pan ydynt ar drwydded. Mae hyn yn rhan o bolisi cydymffurfiaeth yr YJS, ac fe wnaeth staff adrodd, os oedd angen, y byddent yn gymryd cyngor gan gydweithwyr yn y gwasanaeth prawf. Ar adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw hyfforddiant penodol mewn gwaith ailsefydlu wedi digwydd.

Dywedodd staff YJS fod cyfathrebu â'r ystâd ddiogel yn dda iawn. Dyrennir gweithiwr allweddol i bob plentyn ac mae sgysiau rheolaidd rhwng yr YJS a'r sefydliad. Mae cyfnewid gwybodaeth â'r sefydliad diogel yn amserol, ac fel arfer derbynnir unrhyw ganlyniadau dyfarnu o fewn 24 awr.

Mae staff yn cynnal perthnasoedd da gyda theuluoedd a byddant yn mynd â rhieni a gofalwyr i ymweliadau ac yn hwyluso galwadau fideo a ffôn fel y gall teuluoedd ddal i gysylltu. Pan yw'n briodol, bydd staff o asiantaethau partneriaeth yn gweld plant mewn sefydliadau diogel a byddant yn cydlynu gyda'u cyfatebwyr yn y sefydliad. Er mwyn sicrhau parhad gofal o'r ddalfa i'r gymuned, byddant yn rhannu gwybodaeth a chynnydd pan yw ymyriadau'n cael eu cwblhau.

Fe wnaeth staff adrodd y gall cyrchu llety addas a darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 fod yn heriol pan yw plant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

Mae gan yr YJS y Canllawiau Ymarfer Ailsefydlu Datbygedig Adeiladol ar waith, a adolygwyd ym mis Hydref 2021. Mae hyn yn amlinellu'rgweithdrefnau a'r prosesau ynghylch ailsefydlu.

1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau



Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol ar waith i gefnogi ymagwedd bersonol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl blant.

Da

Wrth wneud dyfarniad ynghylch gwybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn dilynol:

A yw'r polisiâu a'r canllawiau ar waith i alluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n ddiwallu anghenion yr holl blant?

Mae ystod o bolisiâu a chanllawiau ar waith, a adolygir yn flynyddol a sy'n hygyrch i staff. Mae pob polisi'n cael ei lofnodi fel un sydd wedi'i ddarllen a'i ddeall gan aelodau'r staff, a thrafodir pob polisi diwygiedig mewn cyfarfodydd tîm a diwrnodau datblygu'r staff. Mae protocolau rhannu gwybodaeth ar waith ac fe'u deallir ar draws y

bartneriaeth. Mae proses uwchgyfeirio i'r holl bartneriaid helpu i herio asiantaeth arall ac mae staff yn teimlo bod rheolwyr yn eu cefnogi i godi pryderon ag asiantaethau eraill.

A yw amgylchedd(au) darparu'r YJS yn diwallu anghenion yr holl blant ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

Ym mis Mai 2021 symudodd yr YJS o'i safle ym Mhort Talbot i ganolfan adnoddau yng Nghastell-nedd. Mae'r ganolfan adnoddau wedi'i dylunio'n bwrpasol ar gyfer plant ac mae ganddi gyfleusterau sy'n cynnwys campfa allanol, llain a gwely blodau, cegin, golchdy, ystafell gawod, ystafell TG, ystafell les, cyfleusterau cynhadledd, salon trin gwallt a harddwch, ystafell hyfforddi ac ymyrraeth, cyfleusterau gweinyddu, a cherbyd trên i'w adnewyddu ar gyfer prosiectau gwneud iawn.

Mae'r Ganolfan Adnoddau wedi'i hailenwi gan blant i BASE15. Mae gwaith ar y ganolfan yn barhaus ac mae'n cynnwys prosiect celf graffiti sy'n cynnwys plant er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn gyfeillgar i blant. Cyn y cyfyngiadau ym mis Rhagyr 2021, roedd ymyriadau a chyfarfodydd yn digwydd o fewn y ganolfan. Y nod yw y bydd tîm yr YJS yn gweithio oddi yno ar sylfaen rota ar gyfer gweithio cyfun (wedi'i gyfuno â gweithio gartref) wrth symud ymlaen.

Nododd yr arolygiad nad yw'r ganolfan adnoddau, er ei bod yn well na'r cyfleuster blaenorol, yn gwbl hygyrch i blant a'u rhieni neu ofalwyr. **Oherwydd cynllun daearyddol yr ardal, fodd bynnag, mae staff yr YJS yn gyfarwydd â chasglu plant a theuluoedd, a gwelir darparu cludiant fel rhan o'r ymyriad.**

A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n diwallu anghenion yr holl blant?

Gall staff yr YJS rannu gwybodaeth trwy gyrchu systemau gofal cymdeithasol plant, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hun i system reoli achosion yr YJS. Mae system reoli achosion yr YJS yn galluogi'r gwasanaeth i gynhyrchu data ar berfformiad. Mae staff partneiaeth yn teimlo eu bod yn rhan o'r tîm gan adrodd am gyfathrebu a rhannu gwybodaeth da gyda rheolwyr achosion, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd am rolau a chyfrifoldebau ynghylch y gwaith sydd angen ei wneud gyda phlant a theuluoedd.

Oherwydd Covid-19, rhoddwyd gliniaduron a ffonau i'r holl staff, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli yn y swyddfa fel arfer. Fe wnaeth y gwasanaeth brynu iPads ar gyfer gweithio o bell gyda phlant ac i gefnogi ymyriadau.

A ddefnyddir dadansoddi, tystiolaeth a dysgu'n effeithiol i ysgogi gwelliannau?

Mae gan yr YJS fframwaith sicrwydd ansawdd ar waith ac mae hwn yn cynnwys adolygiadau wedi'u trefnu a heb eu trefnu o waith achosion a meysydd ymarfer â thema. Mae archwiliadau thematig ac achosion yn cael eu gwneud ar sylfaen amlasiantaethol a maent wedi cynnwys archwiliadau diogelu a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws y bartneriaeth ac archwiliadau achosion cyfan gyda gwasanaethau plant. Yn dilyn archwiliadau achosion, mae rheolwyr yn rhoi adborth geiriol ac ysgrifenedig i staff.

Mae'r swyddog cyfranogi'n cysylltu â'r holl blant ar ddiwedd eu hymyriad er mwyn casglu adborth. Fodd bynnag, nid yw'r YJS yn casglu barnau dioddefwyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Mae tystiolaeth bod yr YJS yn adolygu achosion pan yw digwyddiadau difrifol yn digwydd ac yn dysgu o ganlyniadau arolygiadau ardaloedd eraill er mwyn gwella ymarfer.

Amrywiaeth

Trwy gydol ein safonau, rydym yn disgwyl ymagwedd bersonol ac ymatebol ar gyfer yr holl blant, sy'n cynnwys ystyried eu hamrywiaeth a'u nodweddion gwaharddedig. Gallai'r ffactorau hynny ddylanwadu ar ein dyfarniadau mewn safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno **crynodeb cyffredinol o'r ymagwedd at amrywiaeth a ganfuwyd gennym yn yr YOT hwn.**

Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan yr YJS, mae 71% o'i weithlu'n fenywaidd. Yn y boblogaeth leol, mae 1.1 y cant yn ddu, Asiaidd neu leiafrifol ethnig, ond mae wyth y cant o grŵp staff yr YJS yn ddu, Asiaidd neu leiafrifol ethnig.

Nifer yr ymyriadau gweithredol yn agored i'r YJS ar adeg yr arolygiad oedd 97, ac roedd 18 y cant o'r rhain wedi'u cysylltu â merched, roedd tri y cant yn ddu, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, roedd gan 44 y cant anabledd dysgu, roedd 71 y cant wedi'u cysylltu â phlant ag anghenion emosiynol, iechyd meddwl a lles, ac roedd gan 65 y cant faterion ynghylch camddefnyddio sylweddau.

Mae'r YJS wedi cyflwyno adroddiad anghymesuredi i'r bwrdd rheoli, a ddadasodd ethnigrwydd yr holl blant yng Nghastell-nedd Port Talbot a oedd wedi derbyn ymyriad gweithredol ar ryw adeg yn ystod 2020-2021. Roedd 124 o blant yn y cyfnod amser ac roedd yr ymyriadau'n cwmpasu achosion atal, gwarediadau y tu allan i'r llys ac ymyriadau llys. O'r 124 o blant, roedd gan 122 'gwyn' yn eu hethnigrwydd a nodwyd; fodd bynnag, o fewn y categori hwn roedd un plentyn wedi'i nodi ei hun fel 'gwyn a du Affricanaidd'. Roedd un plentyn wedi cofnodi 'Sipswn/Roma' ac roedd un arall wedi cofnodi 'cefndir cymysg arall'. Mae hyn yn dangos bod plant sy'n huniaethu fel du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig yn ddau y cant o ymyriadau gweithredol yr YJS. Wrth edrych yn benodol ar ymyriadau statudol, roedd 35 plentyn yn y cohort, ag un yn huniaethu fel 'gwyn a du Affricanaidd'. Mae hyn yn cyfateb i dri y cant o'r cohort.

Ym mis Ionawr 2021 cyflwynwyd archwiliad i'r bwrdd a oedd yn dadansoddi merched a oedd yn hysbys i'r YJS er mwyn deall tueddiadau troseddu ac anghenion merched a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth. Roedd yn siomedig nodi na fu ffocws parhaol ar y maes hwn o waith ac ni weithredwyd argymhellion. Hefyd roedd diffyg cyswllt rhwng rheolwyr a staff ynghylch yr effaith mae'r adroddiad hwn wedi'i chael ar ymarfer. Nid oedd pob aelod o staff yn gallu dweud eu bod wedi gweld yr adroddiad ac wedi deall gor-gynrychiolaeth merched a oedd yn hysbys i'r gwasanaeth.

Er bod adroddiadau dadansoddi wedi'u cwblhau a oedd yn canolbwyntio ar hil a rhywedd nodwyd bod y rhain wedi cael ychydig o effaith yn unig ar ddealltwriaeth staff o sut y gall amrywiaeth plentyn ddylanwadu ar eu cyswllt â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.

2. Gwarediadau llys

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar dair dedfryd gymunedol a reolwyd gan yr YJS Nid oedd unrhyw ddedfrydau o garchar o fewn y cyfnod amser a gwmpaswyd gan yr arolygiad. Hefyd fe wnaethom gynnal tri chyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Fe wnaethom archwilio ansawdd yr asesu; gweithredu a darparu gwasanaethau; ac adolygu. Arolygwyd pob un 'r elfennau hyn ynghylch gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymatal, cadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Fe wnaeth panel sgoriau Arolygiaeth Prawf EM weithredu disgresiwn proffesiynol i'r sgôr a roddwyd ar gyfer ansawdd yr adolygu. Fe wnaeth arolygwyr archwilio data'r achosion gan farnu bod ansawdd adolygu diogelwch a lles plant yn annigonol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod ymarfer yn gryf pan oedd rheolwyr achosion yn adolygu ymatal gan blentyn a'u risg o beri niwed i bobl eraill. Wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, a safbwyntiau'r prif arolygwr, cytunodd y panel i symud y dyfarniad ar gyfer y safon hon o 'Annigonol' i 'Angen gwella'.

Roedd yr holl asesiadau'n gryf ym meysydd ymatal, diogelwch a lles a'r risg o beri niwed i bobl eraill. Ystyroidd rheolwyr achosion amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, a gwybodaeth gan asiantaethau eraill. Fe wnaethon nhw ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynol y plentyn, a'u gallu a'u cymhelliant i newid. Fodd bynnag, mae angen datblygu dansoddiad o amrywiaeth y plentyn a'r rheolaethau a'r ymyriadau i hyrwyddo eu diogelwch a lles a rheoli a lleihau eu risg o beri niwed i bobl eraill.

Roedd yr holl achosion a arolygwyd gennym yn foddhaol ar gyfer cynllunio mewn cysylltiad ag ymatal a'r risg o beri niwed i bobl eraill, ac yn y mwyafrif o achosion fe wnaeth y rheolwr gynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn. Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried amgylchiadau personol y plentyn, ac ystyried eu cryfderau a'u ffactorau amddiffynnol, yn ogystal â lefel eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid. Fe wnaethom ganfod bod rheolwyr achosion yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn y cynllunio. Wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles a'r risg o beri niwed i bobl eraill, roedd rheolwyr achosion yn mynd i'r afael â'u risgiau, gan gynnwys asiantaethau eraill yn briodol. Dylid gwella gwaith i gyflwyno trefniadau wrth gefn i reoli diogelwch a lles y plentyn a gwella eu risg o beri niwed i bobl eraill.

Yn yr holl achosion a arolygwyd gennym, roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n foddhaol yn nhri maes ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o beri niwed i bobl eraill. Roedd rheolwyr achosion yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas effeithiol â phlant a'u rhieni neu ofalwyr ac roeddent yn annog ac yn galluogi cydymffurfiaeth y plentyn â 'r gorchymyn llys.

Roedd y mwyafrif o adolygiadau'n foddhaol ym meysydd ymatal a'r risg o beri niwed i bobl eraill. Fe wnaeth rheolwyr achosion nodi ac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn gan ystyried eu cryfderau a'u ffactorau amddiffynnol. Fe wnaethon nhw ystyried cymhelliant y plentyn a chynnwys y rhieni neu'r gofalwyr yn y broses adolygu. Pan oedd rheolwyr achosion yn adolygu diogelwch a lles, ni wnaethon nhw ymateb yn gyson i unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ac addasu'r cynllun parhaus yn unol â hynny. Rhaid i staff sicrhau, wrth adolygu risg y bydd y plentyn yn peri niwed i bobl eraill a'u diogelwch a lles, eu bod yn cynnwys gwybodaeth gan asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn a'u teulu.

Cryfderau

- Roedd asesiadau'n gryf ym meysydd ymatal, diogelwch a lles a'r risg o beri niwed i bobl eraill. Fe wnaethon nhw ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynol y plentyn, a'u gallu a'u cymhelliant i newid.
- Wrth asesu, roedd rheolwyr achosion yn ystyried amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, a gwybodaeth gan asiantaethau eraill.
- Wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles a'r risg o beri niwed i bobl eraill, roedd rheolwyr achosion yn mynd i'r afael â'u risgiau, gan gynnwys asiantaethau eraill yn briodol.
- Roedd staff yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas effeithiol â phlant a'u rhieni neu ofalwyr ac roeddent yn annog ac yn galluogi cydymffurfiaeth y plentyn â'r gorchymyn llys.
- **Wrth adolygu ymatal, fe wnaeth rheolwyr achos nodi ac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn ac ystyried cymhelliant y plentyn.**

Meysydd ar gyfer gwella

- Nid oedd staff yn ystyried angenion amrywiaeth y plentyn yn rheolaidd wrth gwblhau asesiadau.
- Wrth asesu diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill, nid oedd staff yn dadansoddi'r rheolaethau ac ymyriadau'n glir yr oedd eu hangen i reoli a lleihau'r risg a nodwyd
- Nid oedd staff yn cyflwyno'r trefniadau wrth gefn yn gyson i reoli diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill yn yr achosion a arolygwyd.
- Pan oedd rheolwyr achos yn adolygu diogelwch a lles, nid oeddent yn ymateb yn gyson i newidiadau mewn amgylchiadau nac yn addasu'r cynllun parhaol yn unol â hynny.
- Nid oedd asiantaethau eraill wedi'u cynnwys bob tro wrth adolygu diogelwch a lles y plentyn a'u risg o achosi niwed i bobl eraill

Bydd gwaith gyda phlant a ddedfrydir gan y llysoedd yn fwy effeithiol os yw'n cael ei dargedu a'i weithredu'n well Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn ôl pedair safon.

2.1. Asesu



Mae asesu'n wybodus iawn, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli. gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Rhagorol

Mae ein sgôr¹⁵ar gyfer asesu wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

¹⁵Ysgogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

	% 'Ydy'
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	100%
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	100%

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Ym mhob un o'r tri achos a arolygwyd, roedd yr asesu'n cynnwys digon o ddadansoddi o ymddygiad troseddol, gan gynnwys agwedd y plentyn tuag at, a chymhelliant am, eu troseddu. Roedd staff wedi ystyried materion amrywiaeth y plentyn mewn dau o dri achos a'u hamgylchiadau personol, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach ym mhob achos. Roedd yr asesu'n ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill ym mhob achos. Fe wnaeth pob asesiad ganolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn, gan gydnabod lefel eu haeddfedrwydd, eu gallu a'u cynhelliant i newid.

Ysyrwyd safbwyntiau'r plentyn a safbwyntiau eu rhieni neu ofalwyr ym mhob achos. Nid oedd rhaid ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr, gan nad oedd dioddefwyr perthnasol yn yr achosion a arolygwyd.

Y ffactorau sy'n fwyaf perthnasol i ymddygiad troseddu'r plentyn yw camddefnyddio sylweddau; dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; hunan-uniaethu; a'u ffordd o fyw.

Ym mhob un o'r tri achos, roedd yr asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn a chefnogi ymatal.

Nododd un arolygwr:

"Mae'r asesu'n briodol i risgiau ac anghenion yr achos. Mae'n amlwg bod y plentyn a'u rhieni wedi'u cynnwys, ac mae'r rheolwr achos wedi ennill gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch cyswllt gwasanaethau plant a hanes addysgol y plentyn."

A yw asesu'ndadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Ym mhob achos, fe wnaeth staff nodi a dadansoddi'r risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn gan dynnu'n briodol ar wybodaeth a gedwir gan asiantaethau eraill. Yn y ddau achos sy'n berthnasol, fodd bynnag, nid oedd staff wedi rhoi digon o sylw i ddadansoddi'r rheolaethau ac ymyriadau a oedd yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn orau. Fe wnaeth yr arolygwyr ddyfarnu bod y dosbarthu risg ar gyfer diogelwch a lles yn rhesymol ym mhob un o'r tri achos. Yn gyffredinol, roedd yr asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob achos a arolygwyd.

Roedd hyn wedi'i dystio gan un arolygwr, a ddywedodd:

"Roedd yr asesu'n gallu dogfennu ystod o bryderon hanesyddol ynghylch trais domestig, salwch meddwl a defnydd o gyffuriau. Hefyd fe wnaeth y rheolwr achos nodi risg o gamfanteisio'n droseddol ar y plentyn, gan fod y plentyn wedi'i fygwth gyda thrais gan wrywod henach a oedd yn hysbys i'r system cyfiawnder troseddol."

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Yn y ddau achos perthnasol, fe wnaeth asesiadau nodi a dadansoddi unrhyw risg o niwed i bobl eraill a gyflwynwyd gan y plentyn, gan gynnwys pwy oedd mewn perygl a natur y risg honno.

Ym mhob achos, fe wnaeth staff ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau'r gorffennol, gan gynnwys asiantaethau eraill, lle roedd yn briodol, yn yr asesiadau.

Fodd bynnag, yn y ddau achos perthnasol, nid oedd yr asesu'n dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau'r risg o niwed a gyflwynwyd gan y plentyn.

Fe wnaeth yr arolygwyr ddyfarnu bod gwaith asesu'r rheolwr achos ar lefel y risg o niwed difrifol yn rhesymol ym mhob achos. Fe wnaeth y rheolwr achos ddadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel ym mhob achos a arolygwyd.

2.2. Cynllunio



Mae cynllunio'n wybodus iawn, yn gyfannol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Da

Mae ein sgôr¹⁶ar gyfer cynllunio wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

	% 'Ydy'
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	100%
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	67%
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	100%

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Yn gyffredinol, roedd cynllunio'n cefnogi ymddygiad ymatal y plentyn ym mhob achos a arolygwyd.

Mewn dau o dri achos, fe wnaeth staff nodi'r gwasanaethau a oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, gan roi sylw i'r amserlenni a oedd ar gael a'r angen am ddilyniannu. Roedd cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, ym mhob achos. Er bod cynllunio wedi ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynol y plentyn ym mhob achos, nid oedd wedi mynd i'r afael â materion amrywiaeth y plentyn mewn un o dri achos. Fe wnaeth staff ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn, a'u gallu a'u cymhelliant i newid, ym mhob achos.

Nid oedd angen i gynllunio ystyried anghenion a dymuniadau y dioddefwr, gan nad oedd dioddefwyr perthnasol yn yr achosion a arolygwyd. Ym mhob achos, roedd tystiolaeth bod y plentyn a'u rhieni wedi'u cynnwys yn y cynllunio, a bod eu safbwyntiau wedi'u hystyried.

¹⁶Ysgoogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Yn y ddau achos perthnasol, aethpwyd i'r afael â'r risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn fel rhan o'r cynllunio ac fe wnaeth rheolwyr achosion gynnwys asiantaethau eraill ac alinio eu cynlluniau yn unol â hynny. Nid oedd cynllunio'n amlinellau'n ddigonol y rheolaethau a'r ymyriadau yr oedd eu hangen i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn mewn un o'r ddau achos perthnasol. Ni nodwyd trefniadau wrth gefn yn ddigonol i reoli risgiau a nodwyd yn y naill neu'r llall o'r ddau achos perthnasol.

Yn gyffredinol, roedd cynllunio'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn dau o'r ddau achos a arolygwyd.

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd digon o gynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill yn y ddau achos perthnasol. Fe wnaeth pob achos gynnwys asiantaethau eraill, ble roedd hynny'n briodol. Nid oedd angen cynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a risgiau penodol ynghylch dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn yr achosion a arolygwyd.

Roedd cynllunio'n nodi'r rheolaethau ac ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill yn y ddau achos a arolygwyd. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau effeithiol wrth gefn i reoli'r risgiau a oedd wedi'u nodi'n amlwg mewn un o'r ddau achos perthnasol a arolygwyd. Yn gyffredinol, roedd cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn ddigonol ym mhob achos a arolygwyd.

Nododd un arolygwr:

"Mae'r cynllun yn cwmpasu meysydd gwaith allweddol sydd angen eu gwneud ac mae gan riant y plentyn rôl bwysig i'w chwarae wrth gyfathrebu unrhyw bryderon. Nid yw'r cynllun yn rhoi sylwadau ar fesurau rheoli amrywiol sydd ar waith i reoli'r risg."

2.3. Gweithredu a darparu



Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio'n dda, wedi'u personoli ac wedi'u cydlynu, gan ymgysylltu â'r plentyn ac yn ei gynorthwyo.

Rhagorol

Mae ein sgôr¹⁷ ar gyfer gweithredu a darparu wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

	% 'Ydy'
A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi'n effeithiol ymddygiad ymatal y plentyn?	100%
A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi'n effeithiol diogelwch y plentyn?	100%
A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi'n effeithiol diogelwch pobl eraill?	100%

¹⁷Ysgogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi'n effeithiol ymddygiad ymatal y plentyn?

Yn gyffredinol, roedd modd darparu gwasanaethau'n cefnogi ymddygiad ymatal y plentyn ym mhob un o'r achosion a arolygwyd. Ym mhob achos fe wnaeth y gwasanaethau a ddarparwyd adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gynnwys y rhieni, gofalwyr neu rai eraill arwyddocaol, adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn ac ystyried materion amrywiaeth y plentyn.

Ym mhob achos, roedd yn amlwg bod staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas gweithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.

Mae'r sylw dilynol gan arolygwr yn arddangos hyn:

"Mae'n amlwg bod y rheolwr achos wedi ffurfio perthynas effeithiol gyda'r plentyn ac wedi eirioli'n llwyddiannus i gadw'r achos oherwydd eu perthynas ac anawsterau cymedrol y plentyn. Fe wnaeth y rheolwr achos arddangos ei fod yn gallu diwallu anghenion amrywiaeth y plentyn a rhoddwyd hyblygrwydd iddo yn ystod sesiynau er mwyn ystyried gorbryder y plentyn."

Ym mhob achos ond un, roedd cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau ôl-oruchwyliaeth wedi'u hyrwyddo. Roedd rheolwyr achosion wedi annog a galluogi cydymffuriaeth y plentyn gyda gwaith yr YJS ym mhob achos. Ni chymerwyd camau gorfodi pan oedd yn briodol mewn un achos perthnasol, ond roedd yr ymyriadau a ddarparwyd yn gymesur i'r gwarediad ac fe'u cwblhawyd o fewn yr amserlenni gofynnol ym mhob achos a arolygwyd.

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

Roedd modd darparu gwasanaethau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn yn amlwg ym mhob un o'r tri achos a arolygwyd, ac roedd y rheolwr achos wedi cydlynu cynnwys sefydliadau eraill ym mhob achos. Yn gyffredinol, roedd y modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn ym mhob un o'r tri achos a arolygwyd.

Nododd un arolygwr:

"Mae diogelwch a lles y plentyn wedi'u rheoli'n ddigonol. Fe fu cyswllt rheolaidd rhwng y rheolwr achos a'r gweithiwr cymdeithasol a gwnaed gwaith gyda'r plentyn ynghylch lleihau'r risg o gamfanteisio pellach."

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

Roedd gwasanaethau a ddarparwyd i gadw pobl eraill yn ddiogel, trwy reoli a lleihau'r risg o niwed, yn amlwg yn y ddau achos perthnasol. Yn yr achosion perthnasol, roedd staff wedi cydlynu cyswllt asiantaethau eraill. Nid oedd yn ofynnol i reolwyr achosionystyriedamddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl, gan na nodwyd dioddefwyr perthnasol yn yr achosion a arolygwyd. Yn gyffredinol, roedd y modd darparu gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol, ac roedd tystiolaeth o hyn ym mhob achos a arolygwyd.

2.4. Adolygu



Mae'r modd adolygu cynnydd yn wybodus, dadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Angen
Gwella

Mae ein sgôr¹⁸ar gyfer adolygu wedi'i seilio ar y cwestiynau allweddol dilynol:

	% 'Ydy'
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	67%
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	33%
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Mae rheolwyr achosion yn ymwybodol y gall amgylchiadau plant newid yn gyflym, ac y gall hyn arwain at gynnydd, neu weithiau gostyngiad, yn y tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, y risg o beri niwed i bobl eraill neu risgiau i'w diogelwch a lles.

Roedd adolygu achosion wedi arwain at nodi, ac wedyn ymateb i, newidiadau yn y ffactorau a oedd wedi'u cysylltu ag ymatal yn y ddau achos perthnasol a arolygwyd gennym. Fe wnaethon nhw adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac ystyried eu hamgylchiadau personol, gan gynnwys eu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, ym mhob achos perthnasol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adolygiad gynnwys dadansoddiad o, ac ymateb i, ffactorau amrywiaeth y plentyn mewn un o'r ddau achos perthnasol. Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried cymhelliant a lefelau ymgysylltu'r plentyn yn yr un achos perthnasol, ac ym mhob achos a arolygwyd, roedd y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi'u cynnwys yn ystyrlon yn y broses, ac ystyriwyd eu safbwyntiau.

Yn y ddau achos perthnasol, arweinodd yr adolygiad at newidiadau yng nghynllun y gwaith ac, yn gyffredinol, fe wnaeth dau o'r tri achos a arolygwyd ganolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn fel rhan o'r broses adolygu.

A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, defnyddiwyd disgrisiwn proffesiynol yn y maes ymarfer hwn. Ni wnaeth rheolwyr achosion nodi nac ymateb i newidiadau yn niogelwch a lles y plentyn yn y ddau achos perthnasol. Wrth adolygu, roedd rheolwyr achosion wedi ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill gan wneud y newidiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus mewn un o'r ddau achos perthnasol. Yn gyffredinol, fe wnaeth

¹⁸Ysgogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

adolygu ganolbwyntio ar gadw 'r plentyn yn ddiogel mewn un o'r tri achos a arolygwyd.

Nododd arolygwr:

"Nid yw'r arolygiad cyfredol yn cipio digwyddiadau diweddar a digwyddiadau sy'n peri pryder sydd wedi digwydd yn rheolaidd. Roedd pryderon ynghylch iechyd emosiynol a meddyliol y plentyn a dylai'r digwyddiadau hyn fod wedi sbarduno adolygiad."

A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Nid oedd y rheolwr achos wedi nodi, nac ymateb i, newidiadau mewn risg yn yr un achos perthnasol. Roedd adolygu wedi'i lywio gan wybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau eraill mewn un o'r ddau achos perthnasol. Mewn un o'r ddau achos perthnasol, roedd y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi'u cynnwys yn ystyrion wrth adolygu'r risg o niwed i bobl eraill, ac ystyriwyd eu safbwyntiau. Nid oedd y broses adolygu wedi arwain at yr addasiadau angenrheidiol yng nghynllun parhaus y gwaith i reoli a lleihau risgiau yn yr un achos perthnasol. Yn gyffredinol, fe wnaeth adolygu ganolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dau o'r tri achos a arolygwyd.

3. Gwarediadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom arolygu tri achos a reolwyd gan yr YJS a oedd wedi cael gwarediad y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad ieuentid a dau ddatrysiad cymunedol.

Ni fu unrhyw rybuddiadau amodol yn y cyfnod amser. Fe wnaethom gyfwrdd y tri rheolwr achos mewn tri achos.

Fe wnaethom archwilio ansawdd yr asesu; cynllunio; a gweithredu a darparu gwasanaethau. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn ynghylch gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymatal, gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel a gwaith i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodedig i bob agwedd ar oruchwylio gael ei sgorio fel boddhaol.

Hefyd fe wnaethom arolygu ansawdd polisiau a darpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau.

Fe wnaeth panel sgorau Arolygiaeth Prawf EM ddefnyddio disgrisiwn proffesiynol yn y sgorau ar gyfer ansawdd gwasanaethau cynllunio a darparu. Fe wnaeth arolygwyr adolygu'r data achosion a dyfarnu nad oedd y dosbarthiad a aseswyd o niwed difrifol i bobl eraill yn rhesymol mewn un achos gan y dylai fod wedi bod yn uwch a bod hyn wedi effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod ymarfer yn gryf pan oedd rheolwyr achosion yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ynghylch ymddygiad ymatal plentyn a'u diogelwch a lles. Wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, a safbwyntiau'r arolygydd arweiniol, cytunodd y panel i symud y dyfarniad ar safon y cynllunio at 'Rhagorol' a safon y gweithredu a darparu at 'Angen gwella'.

Ym mwyafrif yr achosion y tu allan i'r llys a arolygwyd, roedd asesu'n foddhaol ym meysydd ymatal a diogelwch a lles y plentyn. Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, a lefel eu haeddfedrwydd, a gallu a chymhelliant i newid. Lle roedd dioddefwr wedi'i nodi, ystyriwyd eu hanghenion a dymuniadau, ac ystyriwyd safbwyntiau rhieni neu ofalwyr fel rhan o'r asesiad. Er bod asesiadau o risg y plant o beri niwed i bobl eraill yn gryf, dylid eu gwella trwy nodi pwy sydd mewn perygl a natur y risg yn fwy eglur.

Roedd cynllunio'n gryfder arwyddocaol ym meysydd ymatal a diogelwch a lles.

Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried amgylchiadau personol y plentyn a lefel eu cymhelliant i newid. Fe wnaeth cynllunio nodi'r cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned ac i gyrchu gwasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys. Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr gan gynnwys y plentyn a'r rhieni neu ofalwyr yn y broses gynllunio. Byddai cynnwys asiantaethau eraill wrth gynllunio diogelwch a lles plentyn a'u risg o beri niwed i bobl eraill yn gwella'r meysydd gwaith hyn.

Nid oedd gweithredu a darparu gwasanaethau mor gryf ag asesu a chynllunio mewn gwarediadau y tu allan i'r llys. Ni wnaeth rheolwyr achosion nodi'n gyson y ffactorau a oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn, nac ystyried materion amrywiaeth y plentyn na chynnwys rhieni, gofalwyr neu bobl eraill arwyddocaol. Fodd bynnag, fe wnaethon nhw ganolbwyntio ar hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio i'r gymuned, gan gynnwys mynediad i wasanaethau prif ffrwd ar gyfer y cyfnod ar ôl i'r gwarediad ddod i ben.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, y 'Biwro' yw'r panel sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys. Mae'n cynnwys rhingyll yr heddlu, rheolwr gweithredol yr YJS, swyddog heddlu'r YJS a chynrychiolydd gwirfoddol o'r gymuned. Mae'r bartneriaeth yn ystyried bod yBiwro'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac felly mae wedi'i sefydlu mewn ffordd debyg i baneli gorchmynion atgyfeirio a lleoliadau ystafell llys ac nid yw'n banel amlasiantaethol. Fodd bynnag, ar yr adeg hon, nid yw plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu dargyfeirio i ffwrdd. Felly dylai'r panel gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch a lles plant yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Cwblheir asesiad ar bob plentyn; fodd bynnag, nid yw'r Biwro'n gweld yr asesiad hwn ond mae'n cael adroddiad cryno yn lle. Felly, nid yw gwybodaeth fanwl o'r asesiad yn cael ei chyflwyno'n gyson i'r Biwro. Mae hyn yn ei wneud yn fwy anodd sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio i'r gofal a'r gwasanaethau cymorth mwyaf priodol a sicrhau y nodir eu hanghenion amrywiaeth. Mae adroddiad dadansoddi gan y Biwro sy'n edrych ar ddata cymharol o 2011. Mae'n cynnwys proffilio plant ond nid yw'n cynnwys ethnigrwydd. Nid oes unrhyw berfformiad a dadansoddiad ar wahân ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys. Mae hwn yn gyfle sydd wedi'i gollu i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau'n diwallu anghenion y plant hyn ar adeg gynnar.

Cryfderau

- Cwblheir asesiad ar bob plentyn cyn i warediad y tu allan i'r llys gael ei roi.
- Wrth gynnal asesiad, fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, a lefel eu haeddfedrwydd, a'u gallu a chymhelliant i newid.
- Roedd asesu a chynllunio'n gryfderau arwyddocaol ym meysydd ymatal a diogelwch a lles.
- Fel rhan o'r broses gynllunio fe wnaeth rheolwyr achosion nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio i'r gymuned a mynediad i wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys.
- Lle nodwyd dioddefwr, ystyriwyd eu hanghenion a dymuniadau.
- Ystyriwyd safbwyntiau rhieni a gofalwyr fel rhan o'r broses asesu a chynllunio.

Meysydd ar gyfer gwella

- Nid yw'r Biwro'n amlasiantaethol, ac ni chyflwynir yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i'r plentyn a'u teulu'n gyson.
- Nid yw adroddiad dadansoddi'r Biwro, sy'n cynnwys proffilio plant, yn cynnwys ethnigrwydd.
- Nid oes unrhyw ddadansoddi a monitro o warediadau y tu allan i'r llys i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau'n diwallu anghenion y plant hyn ar adeg gynnar.
- Nid oedd asiantaethau eraill wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y broses gynllunio i reoli a lleihau risg plentyn o beri niwed i bobl eraill.
- Wrth ddarparu gwasanaethau, ni wnaeth rheolwyr achosion nodi'n gyson y ffactorau a oedd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn ac ystyried materion amrywiaeth y plentyn.

Bydd gwaith gyda phlant sy'n cael gwarediadau y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os yw'n cael ei dargedu, cynllunio a gweithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn ôl pedair safon.

3.1. Asesu



Mae asesu'n wybodus iawn, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli. gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Da

Mae ein sgôr¹⁹ar gyfer asesu wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

	% 'Ydy'
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	100%
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Roedd digon o ddadansoddi o ymddygiad troseddol ym mhob un o'r triachos. Fe wnaeth rheolwyr achosion ystyried amgylchiadau personol y plentyn gan ddefnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill ym mhob achos. Fe wnaeth y rheolwr achos ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn ym mhob achos, er na wnaethon nhw ddadansoddi materion amrywiaeth y plentyn yn briodol mewn un o'r tri achos.

Roedd rheolwyr achosion wedi cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn yr asesu ac wedi ystyried eu safbwyntiau ym mhob achos. Ystyriwyd lefel aeddfedrwydd y plentyn a'u gallu a chymhelliant i newid ym mhob achos. Roedd anghenion a dymuniadau dioddefwyr wedi'u hystyried ym mhob achos.

Y ffactorau mewn gwarediadau y tu allan i'r llys sy'n perthyn fwyaf i ymddygiad troseddu plentyn yw hunan-uniaethu, ffordd o fyw, dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a threfniadau byw; ac ym mhob achos fe wnaeth yr asesu ddadansoddi'n ddigonol sut i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn a chefnogi ymatal.

Mewn un achos, nododd yr arolygwr:

"Mae'r rheolwr achos wedi cynhyrchu asesiad cynhwysfawr gan nodi bod y plentyn wedi profi trawma. Mae'n cysylltu anghenion amrywiaeth y plentyn â'u profiadau cynnar."

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Ym mhob achos, roedd y risg i ddiogelwch y plentyn wedi'i nodi a'i dadansoddi'n briodol gan y rheolwr achos. Fe wnaeth yr asesu ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth,

¹⁹Ysgogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

gan gynnwys asesiadau eraill, a chynnwys asiantaethau eraill lle roedd yn briodol ym mhob achos.

Fe wnaeth arolygwyr ddyfarnu bod gwaith asesu'r rheolwr achos o lefel y diogelwch a lles yn rhesymol ym mhob achos. Yn gyffredinol, dyfarnwyd bod yr asesu wedi dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob un o'r tri achos a arolygwyd.

Nododd un arolygwr:

"Mae gan y plentyn gefndir cymhleth ac mae hefyd yn profi anawsterau cyfredol. O gofio hyn, mae'r rheolwr achos wedi darparu dadansoddiad ystyrlon a thrwyadl".

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Maewn dau o dri achos, fe wnaeth yr asesiad nodi a dadansoddi'r risg o niwed i bobl eraill, gan gynnwys pwy sydd mewn perygl a natur y risg, Ym mhob achos, roedd y rheolwr achos wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i lywio eu barn eu hun. Fe wnaeth arolygwyr ddyfarnu bod asesiad y rheolwr achos o lefel y risg o niwed difrifol i bobl eraill yn rhesymol ym mhob un ond un achos ac, yn gyffredinol, fe wnaeth yr asesiad ddadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dau o dri achos a arolygwyd.

3.2. Cynllunio



Mae cynllunio'n wybodus, dadansoddol ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr.

Rhagorol

Mae ein sgôr²⁰ ar gyfer cynllunio wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

	% 'Ydy'
A yw cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	100%
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Yn gyffredinol, fe wnaeth cynllunio gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn ddigonol ym mhob achos a arolygwyd. Ym mhob achos, fe wnaeth staff cynllunio'r gwasanaethau a oeddd yn fwyaf tebygol o gefnogi ymddygiad ymatal, gan roi sylw i amserlenni a dilyniannu priodol. Ym mhob un o'r tri achos, ystyriodd staff gyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn. Fodd bynnag, mewn un o dri achos, ni wnaeth cynllunio fynd i'r afael â materion amrywiaeth y plentyn yn ddigon da nac ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn. Ystyriwyd lefel aeddfedrwydd y plentyn a'i gymhelliant i newid gan y rheolwr achos ym mhob achos.

²⁰Ysgoogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiyanu allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

Roedd rheolwyr achosion wedi ystyried cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned a mynediad i wasanaethau prif ffrwd ar gyfer y plentyn ar ôl cwblhau eu gwarediad y tu allan i'r llys ym mhob achos. Roedd cynllunio'n briodol i fath y gwarediad, a oedd yn golygu y gellid cwblhau ymyriadau o fewn yr amserlenni mewn dau o'r tri achos.

Ym mhob achos, roedd staff wedi cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn y broses gynllunio, ac yn y ddau achos perthnasol roedd anghenion a dymuniadau dioddefwyr wedi'u hystyried.

Nododd un arolygwr:

"Fe wnaeth y rheolwr achos gwblhau ymweliad â chartref gan esbonio'r cynllun i'r plentyn a'u rhieni. Mae'r cynllun yn gynhwysfawr gan nodi bod y plentyn yn wydn. Mae'n dogfennu ystod o waith sydd angen ei gwblhau."

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Yn yr un achos perthnasol, fe wnaeth cynllunio hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn ond mewn dau achos perthnasol ni chynhywyswyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill i lywio cynllunio. Roedd trefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw newidiadau i lefel y risg yn amlwg yn yr un achos perthnasol ac, yn gyffredinol, fe wnaeth cynllunio ganolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob un o'r achosion a arolygwyd.

Arddangoswyd hyn yn yr achos isod, lle nododd arolygwr:

"Mae'r cynllun yn dogfennu pa ymyriadau sydd eu hangen i gadw'r plentyn yn ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith i'w cadw'n ddiogel yn y gymuned, dychwelyd i addysg a gweithgareddau cadarnhaol yn ogystal â nodi rheolaethau allanol."

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, defnyddiwyd disgresiwn proffesiynol yn y maes ymarfer hwn. Nid oedd cynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill drwy fynd i'r afael â'r risg o niwed i bobl eraill yn amlwg mewn un o'r achosion perthnasol. Ni wnaeth rheolwyr achosion

gynnwys asiantaethau eraill yn yr un achos perthnasol, ac roedd cynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn i reoli'r risgiau hynny a nodwyd yn amlwg mewn un yn unig o'r ddau achos perthnasol.

Roedd cynllunio i fynd i'r afael â phryderon a oedd yn perthyn i ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn amlwg mewn dau o'r tri achos perthnasol a arolygwyd. Yn gyffredinol, roedd cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel yn amlwg mewn dau o'r tri achos a arolygwyd.

3.3. Gweithredu a darparu



Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio'n dda, wedi'u personoli ac wedi'u cydlynu, gan ymgysylltu â'r plentyn ac yn ei gynorthwyo.

Angen
gwella

Mae ein sgôr²¹ ar gyfer gweithredu a darparu wedi'i seilio ar y cwestiyanu allweddol dilynol:

	% 'Yd y'
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn effeithiol?	67%
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	67%
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	0%

A yw'r modd gweithredu a darparu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

Roedd ymyriadau i gefnogi ymatal wedi'u darparu mewn da bryd mewn dau o dri achos. Mewn un achos nid oedd y rheolwr achos wedi cyfrif am unrhyw faterion amrywiaeth, ond ym mhob un o'r tri achos, fe wnaeth darparu'r ymyriadau hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned a chael mynediad at wasanaethau prif ffrwd.

Mewn dau o'r tri achos, roedd rheolwyr achosion wedi ystyried cyd-destun cymdeithasol y plentyn, wedi datblygu a chynnal perthynas gweithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr ac wedi annog a galluogi cydymffurfiaeth y plentyn.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i ymddygiad ymatal y plentyn yn amlwg mewn dau o'r tri achos a arolygwyd.

Nododd un arolygwr:

"Ar y cychwyn roedd y plentyn yn anfodlon i ymgysylltu â'r YJS. Fe wnaeth y rheolwr achos dreulio amser gyda'r plentyn er mwyn eu hannog a'u hysgogi i weithio gyda'r gwasanaeth."

A yw'r modd gweithredu a darparu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Nid oedd yn amlwg bod diogelwch a lles y plentyn wedi'u hyrwyddo drwy ddarparu gwasanaeth yn yr un achos perthnasol. Mewn un achos lle roedd asiantaethau eraill wedi'u cynnwys, fe wnaeth rheolwyr achosion eu cynnwys wrth gadw plant yn ddiogel. Yn gyffredinol, fe wnaeth y modd darparu gwasanaeth gefnogi diogelwch y plentyn mewn dau o'r tri achos a arolygwyd.

A yw'r modd gweithredu a darparu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, defnyddiwyd disgresiwn proffesiynol yn y maes ymarfer hwn.

Ni wnaeth y gwasanaethau a ddarparwyd reoli a lleihau'r risg o niwed yn y ddau achos perthnasol, ac nid oedd rheolwyr achosion wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn yr un achos perthnasol. Yn gyffredinol, fe wnaeth yr

²¹Ysgoogir y sgôr ar gyfer y safon gan y sgôr isaf ar bob un o'r cwestiyanu allweddol, a roddir mewn band sgorio, a ddangosir yn ddu yn y tabl. Gweler Atodiad 2 am esboniad manylach.

arolygwyr ddyfarnu nad oedd diogelwch pobl eraill wedi'i gefnogi'n ddigonol ym mhob achos a arolygwyd.

3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth gwarediadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel, wedi'i seilio ar dystiolaeth ar waith sydd yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymddygiad ymatal cynaliadwy.

Angen Gwella

Wrth wneud dyfarniad ynghylch polisi a darpariaeth ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys, rydym yn ystyried yr atebion i'r cwestiynau dilynol:

A oes polisi ar waith ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sydd yn hyrwyddo dargyfeirio priodol ac yn cefnogi ymatal cynaliadwy?

Mae proses gwarediadau y tu allan i'r llys gyda Heddlu De Cymru ar gyfer 2020-2023 ac mae polisi penodol ar waith gyda Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys.

Y Biwro yw'r panel sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys. Mae'n cynnwys rhingyll yr heddlu, rheolwr gweithredol yr YJS, swyddog heddlu'r YJS a chynrychiolydd gwirfoddol o'r gymuned. Er bod y polisi'n nodi proses uwchgyfeirio os bydd anghytundebau ynghylch canlyniadau'n codi, nid yw hon wedi'i phrofi.

Mae'r bartneriaeth yn ystyried bod y Biwro'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac felly mae wedi'i threfnu mewn ffordd debyg i baneli gorchmynion atgyfeirio a lleoliadau ystafell llys ac nid yw'n banel amlasiantaethol. Fodd bynnag, ar yr adeg hon, nid yw plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu dargyfeirio i ffordd. Nid yw'r panel wedi'i threfnu i gydnabod hyn a dylai aelodau'r panel gynnwys yr asiantaethau hynny sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch a lles plant yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Cwblheir assiad ar bob plentyn; fodd bynnag, nid yw'r Biwro'n

gweld yr asesiad hwn ond mae'n derbyn adroddiad cryno yn lle. Felly, nid yw gwybodaeth fanwl o'r asesiad yn cael ei chyflwyno'n gyson i'r Biwro. Mae hyn yn ei wneud yn fwy anodd sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio i'r gofal a'r gwasanaethau cymorth mwyaf priodol a sicrhau y nodir eu hanghenion amrywiaeth. Mae hyn yn ei wneud yn fwy anodd sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio i'r gwasanaethau gofal a chymorth mwyaf priodol ac y nodir eu hanghenion amrywiaeth.

A yw darpariaeth ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymatal cynaliadwy?

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r heddlu'n gallu cynnig datrysiadau yn y gymuned, naill ai gyda neu heb ymyriad cyfiawnder adferol, 'ar y stryd'. Mae'r YJS yn cael ei hysbysu ac mae'n gwirio a yw'r plentyn yn ywneud ag unrhyw asiantaethau eraill a bydd yn cynnig ymyriadau atal os yw hynny'n briodol.

Pan yw plentyn yn cael ei atgyfeirio i'r gwasanaeth, mae swyddog heddlu'r YJS yn adolygu'r digwyddiad ac yn ei anfon at swyddfa weinyddu'r YJS, fel y gallant sgrinio cronfeydd data partneriaid eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant. Bydd rheolwr

YJS yn dyrannu'r achos, yn dibynnu ar a yw'r plentyn yn agored i'r gwasanaeth ar y pryd. Bydd y VLO yn derbyn manylion y dioddefwr gan swyddog heddlu'r YJS.

Bydd y rheolwr achos yn cwblhau asesiad gan ddefnyddio naill ai'r offeryn atal a sgrinio y tu allan i'r llys neu'r asesiad AssetPlus. Mae'r offeryn sgrinio'n cynnwys sgrinio am anghenion lleferydd, iaith a chyfatrhebu, camfanteisio, cysylltiad asiantaethau eraill, risg y bydd y plentyn yn peri niwed i bobl eraill a'u diogelwch a lles. Gallai'r sgrinio hyn arwain at AssetPlus llawn yn cael ei gwblhau os oes angen. Mae'r rheolwr achos yn cydlynu â'r VLO ynghylch safbwyntiau'r plentyn ar unrhyw gysylltiad â phroses adferol. Yna paratwir adroddiad i'r Biwro, sy'n crynhoi'r asesiad sydd wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn destun sicrwydd ansawdd cyn cael ei gyflwyno i'r Biwro. Nid oes unrhyw nifer benodol o warediadau y tu allan i'r llys y gall plentyn eu derbyn. Mae'r penderfyniad yn dibynnu ar fath y dramgwydd, derbyn cyfrifoldeb neu gytundeb i ymyriad gwirfoddol, a'r hyn y mae'r Biwro'n credu y bydd yn diwallu anghenion y plentyn.

Cyn Covid-19, roedd gan y Biwro glinig lle cyflwynwyd y canlyniad i'r plentyn neu eu rhieni neu ofalwyr. Oherwydd cyfyngiadau cyfredol, cyfathrebir penderfyniad y Biwro i'r plentyn a'u teulu drwy alwad ffôn oddi wrth swyddog heddlu'r YJS ar gyfer gwarediadau adferol ieuencid. Ar gyfer rhybuddiadau ieuencid a rhybuddiadau amodol ieuencid, cyfathrebir y penderfyniad wyneb yn wyneb. Mae swyddog heddlu'r YJS yn esbonio natur y gwarediad, yn ogystal â'r cynllun ymyrraeth sy'n cael ei gynnig. Bydd y rheolwrachos yn gwirio bod y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr yn deall y gwarediad gyda galwad ffôn dilynol o fewn 24 awr. Mae'r holl ymyriadau sydd ar gael i blant ar orchmynion statudol ar gael i'r rhai sy'n derbyn gwarediad y tu allan i'r llys.

Disgwylir y caiff gwarediad y tu allan i'r llys ei gwblhau o fewn tri mis, er y gall gwarediad aros yn agored ar sylfaen wirfoddol am gyfnod hwy os oes angen. Pan nad yw plentyn yn cydymffurfio â'u gwarediad, gwneir ymdrechion i gefnogi ymgysylltu. Lle nodir risgiau gwneir atgyfeiriadau i wasanaethau Cymorth Cynnar a rhennir yr asesiad.

A yw polisi a darpariaeth ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu a'u diweddarau'n rheolaidd i sicrhau effeithiolrwydd a chynnal aliniad â'r sylfaen dystiolaeth?

Sefydlwyd panel craffu'n ddiweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (PCC) ac mae wedi cyfarfod unwaith. Ei bwrpas yw cynnal adolygiadau o'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r rhesymeg dros wneud gwarediad y tu allan i'r llys. Mae'r panel yn cynnwys yr heddlu, YJS, ynadon, gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a chynrychiolydd o'r PCC, er y cydnabyddir bod angen cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn i'r broses fod yn effeithiol. Ar adeg yr arolygiad roedd bwriad y bydd y gwasanaeth prawf a gwasanaethau plant yr awdurdod lleol yn cael eu cynrychioli hefyd.

Mae gan y Biwro adroddiad dadansoddi sy'n ystyried data cymharol o 2011 a sy'n cynnwys proffilio plant. Mae'n ymgorffori oedran, rhywedd, troseddau a throseddau'r dyfodol ond nid yw'n cynnwys ethnigrwydd. Fodd bynnag, nid yw unrhyw waith ynghylch perfformiad a dadandoddiad o warediadau y tu allan i'r llys yn cael ei fonitro. Os nad yw'r gwasanaeth yn proffilio ac olrhain y cohort hwn o blant, ni all nodi tueddiadau yn eu rhywedd, ethnigrwydd a statws gofal. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant hyn ar gam cynnar.

Atodiad 1: Methodoleg

Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safonau rydym yn arolygu gwasanaethau troseddu ieuencid yn eu hôl wedi'u seilio ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad. Cynllunnir y safonau hyn i ysgogi gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.²²

Crynoir methodoleg yr arolygiad isod, wedi'i chysylltu â'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gael tystiolaeth yn ôl y safonau, cwestiynau allweddol a phrociau yn fframwaith ein harolygiad.

Parth un: darpariaeth sefydliadol

Fe wnaeth y gwasanaeth troseddu ieuencid gyflwyno tystiolaeth o flaen llaw ac fe wnaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai Castell-nedd Port Talbotro cyflwyniad yn cwmpasu'r tri maes dilynol:

- Sut mae trefniadau darpariaeth sefydliadol yn yr ardal hon yn sicrhau bod gwaith eich YOS mor effeithiol ag y gall fod, a bod siawnsiau bywyd plant sydd wedi troseddu'n cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod prif gam y gwaith maes, fe wnaethom gynnal chwe chyfweiliad gyda rheolwyr achosion, gan ofyn iddynt am eu profiadau o hyffordiant, datblygiad, goruchwyliaeth gan reolwyr ac arweinyddiaeth. Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd amrywiol, a oedd yn caniatáu i ni driongli tystiolaeth a gwybodaeth. At ei gilydd, fe wnaethom gynnal 12 cyfarfod, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Dyfarnwyd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn yn ôl nodweddion ein sgorau cyhoeddedig.²³

Parth dau: gwarediadau'r llys

Fe wnaethom gwblhau asesiadau dros gyfnod o un wythnos, gan archwilio ffelïau achosion a chyfweld rheolwyr achosion. Roedd pum deg y cant o'r achosion a ddewiswyd yn rhai plant a oedd wedi derbyn gwarediadau llys chwech i naw mis yn gynharach, gan ein galluogi i archwilio gwaith mewn cysylltiad ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle roedd angen, digwyddodd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn gysylltiedig yn sylweddol â'r achos.

Fe wnaethom archwilio tri gwarediad llys. Gosodwyd maint y sampl i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda ffin cyfeiliornad o bump), ac fe wnaethom sicrhau bod y cymarebau mewn cysylltiad â dosbarthiadau rhywedd, dedfryd neu fath o warediad, risg o niwed difrifol, a risg i ddiogelwch a lles yn cyfateb â'r rhai hynny yn y boblogaeth gymwys.

Parth tri: gwarediadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom gwblhau asesiadau dros gyfnod o un wythnos, gan archwilio ffelïau achosion a chyfweld rheolwyr achosion. Roedd pum deg y cant o'r achosion a ddewiswyd yn rhai plant a oedd wedi derbyn gwarediadau y tu allan i'r llys dri i bum mis yn gynharach. Roedd hyn yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn cysylltiad ag

²² Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma::

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>


asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu. Lle roedd angen, digwyddodd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn gysylltiedig yn sylweddol â'r achos. Fe wnaethom archwilio tri gwarediad y tu allan i'r llys. Gosodwyd maint y sampl ar y gyfran o achosion gwarediadau y tu allan i'r llys yn yr YJS.

Atodiad 2: Data'r arolygiad

Yn yr arolygiad hwn, fe wnaethom gynnal archwiliad manwl o sampl o dri gwarediad llys a thri gwarediad y tu allan i'r llys. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn ôl safonau ynghylch asesu, cynllunio a gweithredu/darparu. Ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. Ar gyfer pob safon, mae arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys a oedd digon o ddadansoddi o'r ffactorau'n ymwneud â throsteddu; i ba raddau yr oedd troseddwy'r ifanc wedi'u cynnwys mewn prosesau asesu a chynllunio; ac a wnaed digon i asesu lefel y risg o niwed a gyflwynwyd, ac i reoli'r risg honno.

I sgorio 'Rhagorol' ar gyfer yr adrannau ar warediadau llys neu warediadau y tu allan i'r llys, rhaid asesu bod 80 y cant neu fwy o'r achosion rydym yn eu dadansoddi'n ddigonol. Os dyfarnir bod rhwng 65y cant a 79y cant yn ddigonol, yna'r sgôr yw 'Da' ac os dyfarnir bod rhwng 50y cant a 64y cant yn ddigonol, ynw rhoddir sgôr o 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50y cant yn ddigonol, rydym yn sgorio hyn fel 'Annigonol'. Nid yw achosion ailsefydlu'n cael eu sgorio ar wahân, mae'r data at ddibenion dangosiadol yn unig.

Mae'r sgôr ar gyfer pob safon wedi'i alinio i'r band ar lefel y cwestiwn allweddol lle dyfarnwyd bod y gyfran isaf o achosion yn ddigonol, gan ein bod yn credu bod pob cwestiwn allweddol yn rhan annatod o'r safon. Felly, os ydym yn sgorio tri chwestiwn allweddol fel 'Da' ac un fel 'Annigonol', y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon honno yw 'Annigonol'.

Band isaf (cyfran yr achosion y dyfarnwyd eu bod yn ddigonol ar lefel y cwestiwn allweddol)	Sgôr (safon)
Lleiafrif: <50%	Annigonol
Rhy ychydig: 50-64%	Angen gwella
Mwyafrif rhesymol: 65-79%	Da
Mwyafrif mawr: 80%+	Rhagorol 

Defnyddir rheolau sgorio ychwanegol i gynhyrchu y sgôr gyffredinol YOT Sgorir pob un o'r 12 safon ar raddfa 0–3 lle mae 'Annigonol' = 0; mae 'Angen gwella' = 1; mae 'Da' = 2; ac mae 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgorau hyn yn cynhyrchu cyfanswm sgôr sy'n amrywio o 0 i 36, sy'n cael ei bandio i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol, fel sy'n dilyn:

- 0–6 = Annigonol
- 7–18 = Angen gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol.

Dyfarnir safonau parth un, y safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) a'r safon ailsefydlu (safon 4.1) gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

Sgorir y safon ailsefydlu ar wahân ac nid yw'n dylanwadu ar y sgôr gyffredinol YOT. Rydym yn gweithredu dyfarniad cyfyngu, lle nad yw unrhyw YOT sy'n derbyn sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon ailsefydlu'n gallu derbyn sgôr 'Rhagorol' gyffredinol,

ta waeth sut maent yn cael eu sgorio yn ôl y safonau craidd. Lle nad oes unrhyw achosion ailsefydlu perthnasol, nid ydym yn gweithredu sgôr i waith ailsefydlu.

Data from inspected cases:²⁴

4.1. Assessment (court disposals)	
A yw asesu'n dadansoddi sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn ddigonol?	
a) A oes digon o ddadansoddi o ymddygiad troseddol, gan gynnwys ymagweddau'r plentyn tuag at a chymhellion am eu troseddu?	100%
b) A yw asesu'n dadansoddi materion amrywiaeth yn ddigonol?	67%
c) A yw asesu'n ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyddestun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw asesu'n defnyddio gwybodaeth a gedwir gan asiantaethau eraill?	100%
e) A yw asesu'n canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn?	100%
f) A yw asesu'n dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn?	67%
g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd a gallu y plentyn, a'i gymhelliant i newid a'u tebygolrwydd o ymgysylltu â'r gwarediad llys?	100%
h) A yw asesu'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfleoedd am gyfiawnder adferol?	0%
i) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrion yn eu hasesiad, ac a yw eu safbwyntiau'n cael eu hystyried?	100%
A yw asesu'n dadansoddi sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol?	
a) A yw asesu'n nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn?	100%
b) A yw asesu'n tynnu'n ddigonol ar ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol?	100%
c) A yw asesu'n dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	0%
A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	
A yw asesu'n nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i bobl eraill a gyflwynir gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sydd mewn perygl a natur y risg honno?	67%

²⁴Nid yw rhai cwestiynau'n gymwys ym mhob achos.

A yw asesu'n tynnu'n ddigonol ar ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau'r gorffennol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol?	100%
c) A yw asesu'n dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau'r risg o beri niwed a gyflwynir gan y plentyn?	0%

2.2. Cynllunio (gwarediadau llys)

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

a) A yw cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, gan roi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniannu?	67%
b) A yw cynllunio'n mynd i'r afael â materion amrywiaeth yn ddigonol?	67%
c) A yw cynllunio'n ystyried amgylchiadau personol y plentyn yn ddigonol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
e) A yw cynllunio'n ystyried lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid yn ddigonol, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel bo angen?	100%
f) A yw cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr?	0%
g) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrllon yn y cynllunio, ac a ystyrir eu safbwyntiau?	100%

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan fynd i'r afael â risgiau'n ddigonol?	67%
b) A yw cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol, ac a oes digon o alinio â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau diogelu plentyn neu ofal) ynghylch y plentyn?	67%
c) A yw cynllunio'n nodi'r rheolaethau ac ymyriadau sydd eu hangen i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	33%
d) A yw cynllunio'n nodi trefniadau angenrheidiol ac effeithiol wrth gefn i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	0%

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan fynd i'r afael yn ddigonol â ffactorau ynghylch risg o beri niwed?	67%
b) A yw cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol?	67%
c) A yw cynllunio'n mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a risgiau penodol ynghylch dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	0%
d) A yw cynllunio'n nodi'r rheolaethau ac ymyriadau sydd eu hangen i hyrwyddo diogelwch pobl eraill?	67%
e) A yw cynllunio'n nodi trefniadau angenrheidiol ac effeithiol wrth gefn i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	33%

2. 3. Gweithredu a darparu (gwarediadau llys)

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn effeithiol?

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir y rhai sy'n fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, â digon o sylw'n cael ei roi i ddilyniannu a'r amserlenni sydd ar gael?	100%
b) A yw darpariaeth gwasanaethau'n cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?	100%
c) A yw darpariaeth gwasanaethau'n adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?	100%
d) A yw darpariaeth gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?	100%
e) A ganolbwyntir yn ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas gweithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr?	100%
f) A yw darpariaeth gwasanaethau'n hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned, gan gynnwys mynediad i wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth?	67%
g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi cydymffurfiaeth y plentyn â gwaith yr YOT?	100%
h) A gymerir camau gorfodi pan ydynt yn briodol?	33%

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn ddigonol?

a) A yw'r modd darparu gwasanaethau'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	100%
b) A yw cynnwys sefydliadau eraill wrth gadw'r plentyn yn ddiogel wedi'i gydlynu'n ddigonol?	100%

A yw'r modd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn ddigonol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?	67%
b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	0%
c) A yw cynnwys asiantaethau eraill wrth risg o niwed wedi'i gydlynu'n ddigonol?	67%
2. 4. Reviewing (court disposals)	
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?	
a) A yw'r modd adolygu'n nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymatal/	67%
b) A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau y plentyn a gwella ffactorau amddiffynnol?	67%
c) A yw'r modd adolygu'n cynnwys dadansoddi, ac ymateb i, ffactorau amrywiaeth?	33%
d) A yw'r modd adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw'r modd adolygu'n ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol?	33%
e) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrllon wrth adolygu eu cynnydd a'u hymgysylltiad, ac a ystyrir eu safbwyntiau?	100%
f) A yw'r modd adolygu'n arwain at yr addasiadau sydd eu hangen yn y cynllun gwaith parhaus er mwyn cefnogi ymatal?	67%
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) A yw'r modd adolygu'n nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau ynghylch diogelwch a lles?	0%
A yw'r modd adolygu'n cael ei lywio gan y mewnbwn sydd ei angen gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	33%
c) A yw'r modd adolygu'n arwain at yr addasiadau sydd eu hangen yn y cynllun gwaith parhaus i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn??	33%
A yw'r modd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw'r modd adolygu'n nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau ynghylch risg o niwed?	0%

b) A yw'r modd adolygu'n cael ei lywio gan y mewnbwn sydd ei angen gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed?	33%
c) A yw'r modd adolygu'n arwain at yr addasiadau sydd eu hangen yn y cynllun gwaith parhaus i reoli a lleihau'r risg o niwed?	0%

3.1. Assessment (out-of-court disposals)

A yw asesu'n dadansoddi sut i gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn ddigonol?

a) A oes digon o waith dadansoddi ar gyfer ymddygiad troseddol, gan gynnwys cydnabyddiaeth y plentyn o gyfrifoldeb am, agweddau tuag at, a chymhellion am eu troseddu?	100%
b) A yw asesu'n dadansoddi materion amrywiaeth yn ddigonol?	67%
c) A yw asesu'n ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyddestun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw asesu'n defnyddio gwybodaeth a gedwir gan asiantaethau eraill?	100%
e) A yw asesu'n canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn?	100%
f) A yw asesu'n dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn?	100%
g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd a gallu'r plentyn, a'i gymhelliant i newid?	100%
h) A yw asesu'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfleoedd am gyfiawnder adferol?	100%
i) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrion yn eu hasesiad, ac a ystyrir eu safbwyntiau?	100%

A yw asesu'n dadansoddi sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol?

a) A yw asesu'n nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn?	100%
b) A yw asesu'n tynnu'n ddigonol ar ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol?	100%

A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

A yw asesu'n nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i bobl eraill a gyflwynir gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sydd mewn perygl a natur y risg honno?	67%
b) A yw asesu'n tynnu'n ddigonol ar ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill a gwblhawyd, a thystiolaeth arall o ymddygiad gan y plentyn?	100%

3. 2. Planning (out-of-court disposals)

A yw cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymddygiad ymatal y plentyn?

a) A yw cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, gan roi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniannu?	100%
b) A yw cynllunio'n mynd i'r afael â materion amrywiaeth yn ddigonol?	67%
c) A yw cynllunio'n ystyried amgylchiadau personol y plentyn yn ddigonol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	67%
e) A yw cynllunio'n ystyried lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid yn ddigonol, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel bo angen?	100%
f) A yw cynllunio'n ystyried cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned yn ddigonol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd yn dilyn cwblhau gwaith gwarediad y tu allan i'r llys?	100%
g) A yw cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?	67%
h) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y cynllunio, ac a yw eu safbwyntiau'n cael eu hystyried?	100%

A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan fynd i'r afael â risgiau'n ddigonol?	33%
b) A yw cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol, ac a oes digon o alinio â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau diogelu plentyn neu ofal) ynghylch y plentyn?	0%

c) A yw cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer y risgiau hynny a nodwyd?	33%
A yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan fynd i'r afael yn ddigonol â ffactorau ynghylch risg o beri niwed?	33%
b) A yw cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle mae'n briodol?	0%
c) A yw cynllunio'n mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a risgiau penodol ynghylch dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	67%
d) A yw cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer y risgiau hynny a nodwyd?	33%
3.3.Gweithredu a darparu (gwarediadau y tu allan i'r llys)	
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi ymddygiad ymatal y plentyn yn effeithiol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir y rhai sy'n fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, â digon o sylw'n cael ei roi i ddilyniannu a'r amserlenni sydd ar gael?	67%
b) A yw darpariaeth gwasanaethau'n cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?	67%
c) A yw'r modd darparu gwasanaethau'n adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?	67%
d) A ganolbwyntir yn ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas gweithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr?	67%
e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi cydymffurfiaeth y plentyn â gwaith yr YOT?	67%
f) A yw'r modd darparu gwasanaethau'n hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio i'r gymuned, gan gynnwys mynediad i wasanaethau prif ffrwd	100%
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	
a) A yw'r modd darparu gwasanaethau'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	0%
b) A yw'r modd cynnwys asiantaethau eraill wrth gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a'i gydlynu'n ddigon da?	33%
A yw'r modd darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed?	0%
b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	0%